# y Dinesydd

Cylchgrawn Newyddion Cymraeg Caerdydd Rhif 179
6 Rhagfyr 1991 65c i ni — am ddim i chi



# CYFARCHION Y NADOLIG

**ANRHEGION NADOLIG SAIN**

sain

**DAFYDD IWAN**
"Dal i Gredu"
CD / Caset
£9.71 / £6.63




**BRYN TERFEL**
CD / Caset
£9.71 / £6.63

**CÔR MEIBION LLANELLI**
"Timeless Moments"
CD / Caset
£9.71 / £6.63

**GORAU SAIN**
CD / Caset
£9.71 / £6.63

**CAROLAU NADOLIG**
(Cymraeg a Saesneg)
CD / Caset

**GOREUON HOGIA'R WYDDFA**
CD £9.71

**FIDEOS**
★ POSTMAN PAT ★ ANTURIAETHAU WYNFF A PLWMSAN (1½ AWR) ★
★ FIDEO MAWR TOMOS Y TANC (1½ AWR) ★
★ ANRHEFN – Y FIDEO ★ MWY O GEFN GWLAD ★

A llawer mwy...!
CEFNOGWCH EICH SIOP LEOL
CANOLFAN SAIN . LLANDWROG . CAERNARFON . GWYNEDD
(0286) 831.111

*Pam talu £19.95?*




**Gwyddoniadur y degawd!**

*1,000 o dudalennau*
*180,000 o eiriau*
*2,000 o luniau, mapiau, diagramau a ffotograffau*

*Dim ond* ***£13.95*** *i siopwyr personol yn unig tra pery'r stoc.*

Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA
*ger y New Theatre*

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos, 9.00-5.30.
Ar agor yn hwyr ar gyfer siopa Nadolig:

Gwener, **29** Tachwedd 1991
Iau, **5** Rhagfyr 1991
Iau, **12** Rhagfyr 1991
Iau, **19** Rhagfyr 1991

Ar gau 25-27 o Ragfyr 1991

**ORIEL**

**ANRHEGION NADOLIG DELFRYDOL I'CH PERTHNASAU A'CH FFRINDIAU**

NOFELAU A STORÏAU BYRION

**TÂN YN EU GWAED:**
Richard Vaughan **£6.95**

**Y TRYDYDD POSIBILRWYDD:**
Mari Williams **£2.95 c.m.**

**O NA BYDDAI'N HAF O HYD:**
**addas. Manon Rhys** **£4.25 c.m.**

**MIL AC UN O NOSAU ARABIA:**
**wedi'u hadrodd gan Islwyn Ffowc Elis**
Sinbad y Morwr, Ali Baba a'r Deugain Lleidr, Aladin; dyna rai o'r chwedlau byd-enwog a geir yn y llyfr hwn i rai ifainc o bob oed. **£12.95 c.c.**

ATGOFION AC YSGRIFAU

**TYNNU LLWCH: Robin Williams**
**£3.75 c.m.**

Am restr gyflawn o'n llyfrau gweler
**Gwledd y Nadolig,**
yn eich papur bro.




HANES

**BRAD Y LLYFRAU GLEISION:**
**gol. Prys Morgan**
Y gyfrol gyfansawdd gyntaf ar 'Brad y Llyfrau Gleision'. Ynddi ceir ysgrifau gan Gareth Elwyn Jones, Ieuan Gwynedd Jones, W. Gareth Evans, Geraint H. Jenkins, Siân Rhiannon Williams, E. G. Millward, Hywel Teifi Edwards, Robin Okey a Prys Morgan. **£9.95 c.m.**

**CHRISTMAS EVANS A'R YMNEILLTUAETH NEWYDD:**
**D. Densil Morgan** **£7.95 c.m.**

**MEDDWL A DYCHYMYG WILLIAMS PANTYCELYN:**
**gol. Derec Llwyd Morgan**
Casgliad o ddarlithiau gan Glyn Tegai Hughes, Meredydd Evans, Derec Llwyd Morgan, Kathryn Jenkins, Bedwyr Lewis Jones a W. I. Cynwil Williams, rhestr o lyfrau Pantycelyn gan D. Alwyn Owen, a llyfryddiaeth a gan Huw Walters. **£7.95 c.m.**

**Y DELYN YNG NGHYMRU MEWN LLUNIAU/THE HARP IN WALES IN PICTURES:**
**£3.50 c.m.**

GOMER
LLANDYSUL, DYFED. 0559 362371

## Lloffion o'r WASG

Mae Santa Clôs wedi cael y sac (na nid y sach) yn Pocklington yn Swydd Efrog, oherwydd, yn ôl gwerthwyr y dre, does neb wedi bod yn galw heibio i'w weld yn ystod y ddwy neu dair mlynedd ddiwethaf.

*********

Mae camgymeriadau teipio'n gallu troi'n chwerthin mawr yn aml. Rwy'n deall fod Dafydd Wigley wedi cael ateb i lythyr anfonodd at David Hunt yn cwyno am wasanaeth British Rail, yn dweud: ***"...It would not be right for me to question British Fail's commercial judgement..."***. Digwyddodd rhywbeth tebyg i HTV unwaith, pan newidiwyd teitl un rhaglen i ***The Wild Whores of Wales*** yn lle ***The Wild Shores of Wales***. A phennaeth cysylltiadau cyhoeddus pa gwango Cymreig alwyd yn ***Head of Pubic Relations*** gan y Western Mail dro 'nôl? Mae 'nghalon i'n curo, Gymry!

*********

Meddai Alan March, cadeirydd Toyota ym Mhrydain, wrth drafod y dirwasgiad, mewn cinio busnes: "Rwy'n deall mai'r golau ym mhen draw'r twnel yw'r Canghellor Norman Lamont â lamp".

*********

***"Well I miss me too"*** meddai Margaret Thatcher wrth feidrolyn mewn cinio pan ddwedodd wrthi ei fod yn ei cholli.

*********

Collodd un fenyw dros stôn o bwysau mewn tri mis wrth chwarae gêm ddiweddaraf Japan – golff tanddwr. Yn ôl pob tebyg, mae swingio clwb golff o dan y dŵr yn defnyddio teirgwaith yn fwy o egni nag ar dir sych, ac mae'n ffordd ddelfrydol o gadw'n heini a cholli pwysau. Dim peryg debyg i chi golli'ch pêl yn y llyn fan draw.

*********

Ar ddydd Sul y Cofio, dywedodd un sylwebydd teledu mai un diwrnod yn unig o heddwch fu ers y Rhyfel Byd diwethaf. Pa ddiwrnod oedd hwnnw tybed?

*********

Pyrc Nadolig Swyddfa'r Post i'w gweithwyr yn ôl y Western Mail yw pecynnau o had letus. Pyrc HTV i'w staff yw drincs am ddim yn y clwb. Eu meddwi nhw er mwyn lleddfu poen y diswyddo debyg.

# MEITHRIN ADDYSG AM AIDS

FEL RHAN o'r gweithgaredd ar gyfer y Diwrnod Aids Bydeang ar 1 Rhagfyr, lansiodd y Mudiad Ysgolion Meithrin ac Awdurdod Hybu Iechyd Cymru daflen newydd ynglŷn â'r clefyd i'w ddefnyddio gan arweinwyr cylchoedd meithrin a rhieni.

Mae'r pamffledyn *Aids a Grwpiau Meithrin* yn cynnig gwybodaeth am y feirws HIV sy'n arwain at Aids, a mynd i'r afael â'r pryder allai godi am bresenoldeb plant ag HIV mewn cylchoedd chwarae a meithrin.

Dywedodd Bryan Jones, cyfarwyddwr y Mudiad Ysgolion Meithrin "Gwyddom bod llawer o rieni ac arweinwyr ein cylchoedd meithrin yn awyddus i weld y pamffledyn hwn. Yn briodol iawn, thema'r Diwrnod Aids Bydeang eleni yr *Rhannu'r Her*, ac rydym yn falch o'i gefnogi".

Mae'r daflen newydd yn tanlinellu nad oes peryg i blant iach wrth chwarae a chydaddysgu â phlant sydd ag Aids am nad yw'r feirws sy'n ei achosi yn cael eu drosglwyddo drwy gymdeithasu arferol. Daw'r peryg yn unig drwy gyfathrach rywiol neu os bydd gwaed heintus yn cyrraedd gwaed person iach, ac nad oes peryg i blant nac oedolion gael y clefyd pan ddilynir canllawiau glendid a chymorth cyntaf yn gywir mewn cylchoedd chwarae a meithrin.




Ginny Blakey o Awdurdod Hybu Iechyd Cymru yn cyflwyno taflen newydd am Aids i Bryan Jones o'r Mudiad Ysgolion Meithrin

Yn bwysicaf oll, dywed y daflen, mae'n hollbwysig bod plant sydd ag HIV yn gallu mwynhau breintiau cydchwarae gyda'u ffrindiau meithrin heb i'w ffrindiau wybod bod y feirws arnynt.

## CLWB 18-30 CYMRAEG

LANSIWYD cymdeithas newydd ar gyfer pobol ifanc yng Nghaerdydd ar nos Fawrth 26 Tachwedd. Daeth tua 50 o bobol rhwng 18 a 30 oed at ei gilydd yng Nghlwb Ifor Bach i drafod syniadau ac i ethol pwyllgor i lywio'r gymdeithas drwy ei misoedd cyntaf.

Yn ôl Eleri Twynog, cadeirydd y pwyllgor, y nod yw ffurfio cymdeithas sy'n debyg i Aelwyd Crymych neu Dŷ Tawe a fyddai â phroffil cenedlaethol uchel er mwyn denu newyddddyfodiaid ifanc i Gaerdydd i ymuno. Y gobaith yw atgyfodi'r llwyddiant gafwyd yn Aelwyd yr Urdd Caerdydd rhyw ddeng mlynedd yn ôl.

Byddai'r gymdeithas yn ganolbwynt ar gyfer ffurfio corau, chwaraeon, gweithgareddau aelwyd, a chystadlu yn eisteddfodau'r Urdd – er na fyddai'r berthynas â'r Urdd yn gonglfaen i'r gymdeithas.

Y tebygolrwydd yw mai Clwb Ifor Bach fydd cartref y gymdeithas, sydd eto i'w henwi, er bod posibilrwydd defnyddio'r Clwb Trydan ym Mhontcanna hefyd.

Bydd y gymdeithas yn cwrdd nesaf ar 12 Rhagfyr, ar gyfer eu parti Nadolig cyntaf, yng Nghlwb Ifor Bach (lleoliad i'w gadarnhau), ac estynnir croeso i bawb i'r clwb 18-30 Cymraeg newydd.

# HELP LLAW I'R CROCCS

MAE'R CWMNI teledu annibynnol Lluniau lliw, Caerdydd, wedi cyhoeddi cytundeb i noddi Clwb Rygbi Cymry Caerdydd am gyfnod o dair blynedd.

Dyma'r tro cyntaf i'r cwmni fentro i noddi chwaraeon er ei fod wedi noddi'r celfyddydau am nifer o flynyddoedd. Ers ei sefydlu ym 1988 gan Peter Edwards, mae'r cwmni wedi datblygu i fod yn un o'r prif gynhyrchwyr drama i S4C, a'u ffilm *Noson yr Heliwr* fydd ffilm fawr y sianel ar ddydd Nadolig.



Mae'r cytundeb tair blynedd yn galluogi Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i fwrw mlaen â'u cynlluniau i ddarparu cyfleusterau chwarae i bob oedran o 7 i 70. Eisoes mae'r Clwb yn cynnal dau dîm i oedolion, tîm dros 35 oed (y CROCCs) ac adran blant (y CRICCs). Y datblygiad nesaf fydd lansio tîm ieuenctid.

Wrth gyhoeddi'r cytundeb dywedodd cyfarwyddwyr Lluniau Lliw, Peter Edwards a Clive Waldron "Credwn mai yn nwylo clybiau fel Clwb Rygbi Cymry Caerdydd mae dyfodol y rygbi yng Nghymru. Os gallwn ni helpu'r Clwb i ddarparu cyfleusterau i alluogi pobol ifanc i fwynhau eu hunain wrth chwarae rygbi, gall ein cyfraniad fod yn un hynod lwyddiannus i ni a'r Clwb".

*Cryts y CRICCs, tudalen 19*

y Dinesydd
Golygydd: Siân Emlyn, 3 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE. 0222 567436.
Cynhyrchu: Gwasanaeth Cysylltiadau Teithiol, 3 Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2BL. 0222 578772; 0222 598243 (hysbysebion); ffacs 0222 567639. ©Y Dinesydd 1991
Cyhoeddir â chymorth gyfraniad ariannol Cyngor y Celfyddydau
**Dyddiad olaf derbyn copi ar gyfer rhifyn Chwefror: 24 Ionawr 1992**

# Y TWRCIS, GWYDDAU

### DEWIS DIRPRWY



PENODWYD Rita Jones o Gaerffili yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol i'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn Ne Cymru.

Bu Mrs Jones yn Swyddog Datblygu'r Mudiad yng Nghwm Rhymni rhwng 1981-89, cyn symud i fod yn Swyddog Datblygu Plant a Theuluoedd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Morgannwg Ganol, gyda chyfrifoldeb arbennig dros ofal plant.

### TÂN YR HEN AELWYD YN CYDIO

PAN DDAETH Chris Perry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol De Morgannwg, ar ymweliad ag Aelwyd Henoed Caerdydd ar 4 Rhagfyr ar gyfer gwasanaeth Nadolig yr Aelwyd, daeth â siec am £1,500 yn anrheg Nadolig cynnar oddi wrth y cyngor sir, i helpu'r Aelwyd yn eu gweithgareddau.

Ers ei sefydlu ym mis Medi, mae'r Aelwyd wedi bod yn llwyddiant gan ddenu tua 70 o aelodau i gapel Minny Street bob yn ail ddydd Mercher i'w cyfarfodydd sy'n llenwi bwlch yn y ddarpariaeth i henoed Cymraeg Caerdydd.

Bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi mewn adnoddau newydd i'r Aelwyd, ac mae'n dilyn cyfraniad o £1,000 gan Ddŵr Cymru, cyfarpar gan Fanc Barclays, a llyfrau print bras gan wasanaeth llyfrgelloedd De Morgannwg.

Erbyn hyn mae Graham Thomas, un o yrrwyr bysiau Ambiwlans St Ioan, yn casglu aelodau o bob rhan o'r ddinas i'r cyfarfodydd gan gynnig gwasanaeth hollbwysig i bobol sydd heb gludiant cyfleus.

Am fanylion pellach am yr Aelwyd, ffoniwch 890440 neu 693848.

## CAMAU POSITIF YN HELYNT Y BEVERLEY

WEDI CYFARFOD â Welsh Brewers ddydd Llun 2 Rhagfyr, cyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg eu bod yn "reit hapus" â'r datblygiadau diweddaraf parthed y Gymraeg a'r bragdy.

Yn ôl Gill Stephen, Trefnydd Cymdeithas yr Iaith yn y De, mae'r cwmni wedi penderfynu ehangu eu polisi Cymraeg o'r ardaloedd Cymraeg yn unig i Gymru gyfan.

Mae hyn yn golygu y bydd Welsh Brewers, wrth adnewyddu eu tafarndai, yn gosod arwyddion dwyieithog ym mhobman, neu yn Gymraeg yn unig ynghyd â sumbol pan nad yw lle'n caniatau defnyddio Saesneg hefyd.


Bydd y cwmni yn ogystal yn edrych i mewn i'r posibiliadau o ddosbarthu rhestrau geirfa ar gyfer hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wrth dderbyn sieciau ac ati, ynghyd â chynnig defnyddio tafarndai Welsh Brewers fel canolfannau i ddysgu Cymraeg.

Dywedodd Gill Stephen wrth y Dinesydd ei bod "yn fodlon iawn â'r polisi, er nad oes cytundeb wedi ei daro eto ynglyn ag achos Dathyl Evans". Dathyl Evans a Manon Jones oedd yng nghanol y ffrwgwd ieithyddol â thafarn y Beverley yng Nghaerdydd yn ystod yr Haf.

Mae Welsh Brewers wedi cyfaddef mewn llythyr at Dathyl ei bod hi'n amlwg bod camddealltwriaeth mawr wedi digwydd, a'i bwriad hi bellach yw ateb yn gofyn felly am ymddiheurad iddi hi a Manon.

Deellir hefyd bod Dathyl wedi wynebu costau teithio uchel o Fryste, lle cychwynnodd yn y brifysgol ym mis Hydref, i wrandawiadau Welsh Brewers yng Nghaerdydd. Gobeithir y bydd modd sicrhau iawndal fydd yn gallu talu'r costau hyn iddi.

Pwysleisiodd Welsh Brewers wrth Gymdeithas yr Iaith bod y newidiadau hyn yn eu polisi wedi bod ar y gweill ers tro.




## LLIWIAU'R NADOLIG AR LWYFAN GLANTAF

JOSEFF A'I GOT Amryliw, gan Andrew Lloyd Webber, yw cynhyrchiad llwyfan Ysgol Glantaf ar gyfer y Nadolig eleni. Perfformir y sioe gerdd ar nos Fawrth 17 a nos Fercher 18 Rhagfyr yn yr ysgol uchaf yn Ystum Taf, ynghyd â pherfformiad matinée ar y prynhawn dydd Mawrth i ysgolion cynradd y cylch.

Roedd dewis y cynhyrchiad hwn yn un poblogaidd yn wyneb yr holl gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r sioe yn Llundain, gyda tua 70 o blant yn cynnig am y prif rannau.

Dewiswyd tri o flwyddyn 9 ar gyfer y tri rhan blaenllaw yn y sioe – Mathonwy Reeves, Catrin Williams a Hywel Dafydd.

Yn gefn i'r prif rannau mae'r côr – disgyblion dosbarthiadau 7 ac 8 yn bennaf. Profodd yr ymarferion yn boblogaidd oherwydd y caneuon roc a rôl, canu gwlad, calypso sydd yn y sioe. A rhoddir digon o sgôp hefyd i fand o'r ysgol uchaf i greu awyrgylch gynhyrfus.

## MAE'R FARI LWYD AR GERDDED

ELENI FEL ARFER bydd y Fari Lwyd yn gadael ei stabl o'r Nadolig tan y Calan i fynd ar gerdded i ganu o gwmpas Caerdydd a'r fro.

Atgyfodwyd Mari Lwyd Caerdydd ym 1970, ac eleni daw i'w hoed yn 21. Roedd y Fari Lwyd yn arferiad cyffredin mewn rhannau o Forgannwg tan yn gynnar yn y ganrif hon. Roedd un cardotyn yng Nghaerdydd yn parhau â'r traddodiad tan y 60au, yn mynd o dŷ i dŷ yn cario penglog march, ond heb fod yn canu penillion.

Ar hyn o bryd mae trefnwyr Mari Lwyd Caerdydd yn chwilio am benglog newydd iddi eleni ar gyfer crwydro gyda'i chriw o rhyw ddwsin.

Os ydych am i'r Fari ymweld â chi eleni, cysylltwch â Rhodri Jones ar 704965 neu Dai James ar 563989

### CAERDYDD YN DATHLU ABER

CYNHELIR dathliadau canmlwyddiant Cymdeithas Cynfyfyrwyr Aberystwyth ym 1992, gyda threfniadau arbennig yng Nghaerdydd.

Ar nos Sadwrn 8 Chwefror bydd Band Syd Lawrence yn taro'r cywair i Ddawns y Dathlu yn Neuadd y Ddinas, gyda'r cyn-Archesgob George Noakes yn arwain gwasanaeth arbennig yng Ngadeirlan Llandaf am 2.00pm y Sul trannoeth.

Bydd Llywydd y Coleg, Syr Melvyn Rosser, a Llywydd y Gymdeithas, yr Arglwydd Hooson hefyd yn cymryd rhan, ynghyd â chyn-fyfyrwyr fu'n aelodau o'r Côr Madrigal.

### LLOYD I ROI EI DRAED I FYNY

AR ÔL DEUNAW mlynedd wrth y llyw, mae Lloyd Evans i roi'r gorau i'w swydd fel trefnydd y Clwb Cadw'n Heini sy'n cwrdd yn ysgol Glantaf. Bydd Wynne Davies yn ymgymryd â'r gwaith trefnu o hyn ymlaen.

Syniad Lloyd oedd y Clwb i gychwyn, a bu wrthi fel trefnydd er pan sefydlwyd y Clwb.

Mae'r Clwb fodd bynnag yn dal i fynd o nerth i nerth bob nos Lun dan adain yr athro Gwyn Morris.

Am fanylion pellach, ffoniwch 611587.

# SHÂN CORN

GŴYL Y GENI, gŵyl y rhoi, gŵyl y derbyn, ac i filoedd ohonom gŵyl y sgrealu a'r rhuthro i ofalu am anrhegion, cardiau a thorllwyth o fwyd fel na bai fory i'w gael. Rhyw gymysgwch o deimladau fel yna sy'n dod i'r rhan fwyaf ohonom wrth weld y Nadolig a'i brysurdeb ar y trothwy.

Dyna fy nheimladau innau, onder gwell neu er gwaeth, rwy'n dal i fwynhau cynnwrf y Nadolig, a diolch fyth yn dal i feddu'r ddawn i ryfeddu a gwirioni. Heb y ddawn honno ofer a gwag fyddai'r Nadolig a'i rialtwch. Caf bleser tu hwnt yn dewis anrhegion, sgwennu cardiau ac yn sgîl hynny cael munudau o feddwl am gyfeillion nas gwelais ers blynyddoedd.

Dal i anfon anrheg a cherdyn at dair ffrind ysgol heb fod wedi torri gair â nhw ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Ie, Gŵyl y Geni a'i holl oblygiadau, ond hefyd gŵyl y cofio i bob un ohonom, y cofio sy'n ein clymu â'r gorffennol, ac yn rhoi rhyw gynhesrwydd i'r galon, er holl droeon yr yrfa, a bod modd gweld rhyw gysondeb mewn bywyd.

Bob Nadolig aiff fy meddwl i Nadoligau fy mhlentyndod. Cyfle yng nghanol fy atgofion i werthfawrogi'r fagwrfa a'r cartre hapus a brofais. Nid oedd llawer o fodd ar yr aelwyd – câi Mama drafferth i lenwi câs gobennydd wrth droed y goeden. Llenwai hwnnw drwy roi bocs o dangerines yn ei waelod er ceisio rhoi'r argraff ei fod yn llawn. Dada ar waelod y grisiau yn galw arnom efo'r un floedd bob blwyddyn "Mae o wedi bod".

Do, am flynyddoedd fe wnes innau ailadrodd yr un defodau bach. Daeth llawer tro ar fyd, a'r hen fyd 'ma a'i flaenoriaethau a'i safonau wedi newid yn ddychrynllyd. Ond 'dall neb na dim ddileu Nadoligau fy ieuenctid o'm cof. Braf yw sylweddoli hynny, brafiach fyth gweld yr un hwyl, yr un brwdfrydedd ar aelwyd fy ŵyr bach Ifan. Bydd ei dad a'i fam yntau'n parhau'r traddodiadau teuluol ac yn galw "Mae o wedi bod". Rwy'n siwr y bydd Ifan yn gosod mins pei a llymaid o dan y goeden i Sôn Corn ar ei daith, yn union fel y gwnes innau, ac y gwnaeth ei fam a'i fodryb Elin.

Edrychaf ymlaen at gael ail fyw'r gorffennol a phrofi'r parhad yn y Felinheli – ia yn yr un pentre ac y byddwn innau'n dilyn yr un defodau gynifer o flynyddoedd yn ôl. Bydd yno ganu carolau o gwmpas y piano, cyfle eto inni ryfeddu o'r newydd at symylrwydd a didwylledd ein carolau traddodiadol. Carolau a ddysgais gan fy man. Bydd Ifan, os caiff Nain Shân ei ffordd ei hun, yn eu gwybod hefyd!

Ydach chi wedi sylwi ar nodwedd unigryw ein carolau? Maent yn sôn am wyrth y Geni o'r proffwydi hyd at y croeshoeliad. Er mor simsan fy ffydd (hyd at weithiau amau ei fod yno o gwbwl), caf wefr o hyd wrth ganu'r pennill syfrdanol

*Am hyn bechadur brysia*
*Fel yr wyt, fel yr wyt*
*Ymofyn am y Noddfa fel yr wyt*
*I ti'r agorwyd ffynnon*
*A ylch dy glwyfau duon*
*Fel eira gwyn yn Salmon*
*Fel yr wyt, fel yr wyt*
*Gan hynny tyrd yn brydlon*
*Fel yr wyt*

a'r wefr i mi yw'r geiriau syml dirodres "fel yr wyt". Dipyn o gysur ynte. Nadolig Llawen iawn i chi gyd, a glynwch wrth eich traddodiadau bach teuluol.



## GYDA DIOLCH

BU EGLWYSI a chymdeithasau Cymraeg Caerdydd a'r cylch yn hael iawn eto yn ystod 1990-91 yn eu cefnogaeth i'r Dinesydd. Dymunwn ddiolch yn wresog iawn iddynt am eu cyfraniadau sy'n allweddol i barhad eich Dinesydd.

Clwb Cam Ymlaen £10; Cwmni Drama Gymraeg Radur £25; Cylch Cinio Gwragedd Caerdydd £75; Cylch Llyfryddol Caerdydd £20; Cymrodorion Caerdydd £20; Cylch Cinio'r Barri £50; Eglwys Soar y Fro £25; Cymdeithas Canna Caerdydd £100; Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys £25; Cymry'r Eglwys Newydd £10; Cymry'r Wenallt £10; Eglwys Annibynnol Ebeneser £25; Eglwys y Bedyddwyr, Tabernacl £20; Eglwys Salem, Treganna £20; Eglwys Annibynnol Minny Street £20; Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd £20; Eglwys Dewi Sant £50; Eglwys yr Undodiaid £20; Eglwys y Crwys £20; Merched y Wawr Radur £50; Merched y Wawr Caerdydd £50.

Cydnabyddir â llawer o ddiolch am gyfraniadau a ddaeth i law oddi wrth Mrs GP Carter; Mrs SM Evans; Mr G Evans; Dr a Mrs M Evans; Mr a Mrs P Griffiths; Mr a Mrs G Humphreys; Mrs E Morgan; Mr Morgan (Llaneirwg); Mr a Mrs OJ Rook; Mrs M Russell; Barnwr a Mrs H ap Robert; Mr U Wiliam; Dr a Mrs JRR Thomas; Mr a Mrs RH Williams; Mr a Mrs HV Thomas; Mr a Mrs B Thomas.

I'r cyfeillion lu sy'n cyfrannu'n gyson trwy archeb banc, gwnaed trefniadau gyda'ch banciau i gyfeirio eich taliadau i'n cyfrif newydd ym Manc y Midland (40-16-18, cyfrif 21256270)

# DIC DOC

Y GYMRAEG am AIDS (Acquired Immune Deficiency Syndrome) yw DIC (Diffyg Imiwnedd Caffaeledig), felly mae DIC-DOC yn enw Cymraeg addas arna i.

Nid bod y feirws yn gwahaniaethu rhwng siaradwyr un iaith na'r llall, rhwng un cenedl a'r nesaf, nac ychwaith rhwng lliw, credo a safle cymdeithasol person. A dyw'r feirws ddim yn gwahaniaethu rhwng gwryw-gydiwr a benyw-gydiwr. Gall y feirws heintio pob un ohonon ni, dim ond i'r amgylchiadau fod yn ffafriol.

Yn y deng mlynedd aeth heibio, mae hanner miliwn o bobol wedi marw o'r clefyd DIC, a gall fod 10 miliwn fod wedi eu heintio yn ystod yr un cyfnod. Felly gallwn ddisgwyl i 10 miliwn farw yn y deng mlynedd nesaf. Ac ymhen 20 mlynedd? Cofiwch mai pentref yw'r byd heddiw.

Rai blynyddoedd yn ôl roedd AIDS yn bwnc trafod yn y cyfryngau ac yn destun siarad mewn capel a chlwb – ie, hyd yn oed rhai Cymreig Cymraeg. A thrwy air a gweithred dangosai'n pobol ifanc eu bod yn gwybod fod yna ystyr newydd i'r hen rybudd "cymerwch ofal".



**Dr Don Anderson**
**Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus**
**Canolfan Cydgysylltu HIV De Morgannwg**

Erbyn hyn mae pob un ohonom wedi cynefino â'r gair AIDS ac wedi cynefino hyd syrffed am y sôn amdano. Oherwydd ein syrffed mae'r mwyafrif ohonom – yn ifanc a hen – yn teimlo'n hollol ddi-fater am y pwnc, ac mae'r haint yn lledu, a dyw'r feirws ddim wedi newid. Mae meddygon teulu a chlinigau ysbytai yn gwybod yn rhy dda fod yr haint yn dal yma, ac ar gynydd. Ac mae'r cynydd yma'n amlwg iawn ymysg y garfan na feddyliodd erioed am gael cyfathrach rywiol hoyw.

Mae'r epidemig yn gafael ym mhoblogaeth ein byd gyda chyflymdra ofnadwy. A pheidied neb o ddarllenwyr y Dinesydd dwyllo'u hunain fod Caerdydd a Chymru fach un iot yn wahanol i'r byd mawr y tu allan.

Dewiswyd 1 Rhagfyr fel diwrnod i'n hatgoffa ni gyd fod gofal eto yn angenrheidiol.

Gyda'r Nadolig wrth y drws, gyda'i hwyl a'i firi, byddai'n gall i Sinderela 1991 fynd â chondom gyda hi i'r ddawns, yn ogystal â'i sgidie dawnsio.

Ac i'r rhai hynny sy'n byw yn ôl y geiriau "dygwch i minnau degwch y munud", cofiwch am beryg yr haint sy'n aros am y cyfle.

Mae Canolfan Cydgysylltu HIV De Morgannwg yn Tŷ Abton, Heol Wedal, y Rhâth, Caerdydd, ffôn 522011. Gall unigolyn sydd angen gwybodaeth neu gyngor am y gwasanaethau sy'n delio â phroblemau Aids alw neu ffonio'r ganolfan. Mae siaradwyr Cymraeg ar gael yno.

# LLUN A SAIN NEWYDD GAN BBC CYMRU I'R GWYLIAU

MAE CYFNOD y Gwyliau eleni yn drothwy arlwy newydd sbon ar y radio a'r teledu i BBC Cymru.



◆ Teulu Bechingalw

Ddydd Nadolig ar S4C, dangosir ffrwyth cyntaf Uned Adloniant Ysgafn newydd y BBC a sefydlwyd ddechrau 1991, sy'n cynnwys Dewi Pws, Rhys Parry Jones, Emyr Wyn a Caryl Parry Jones.

Gyda 300 o sgetsus ac 20 o ganeuon yn y can, bydd *Bechingalw* yn adloniant i'r teulu cyfan, a'r gyfres o ddeg rhaglen a ddaw i ben ar 28 Chwefror, yn cyflwyno Y Teulu, sef y Brenin Derec, y Frenhines Blemish, y Tywysog Pwrs a'r Dywysoges Hot Nics.

Bydd tonfedd Radio Cymru hefyd yn cael ei gweddnewid ddechrau mis Ionawr, gyda mwy o oriau, cychwyn cynharach a darlledu yn ddi-stop ddydd Sul.

Yn diflannu mae *Heddiw*, ac yn ei lle Dei Tomos fydd yn torri'r wawr dros Gymru am 6.00am, gyda rhaglenni newyddion newydd am 7 ac 8 o'r gloch. Codi'n fore hefyd fydd Hywel Gwynfryn, a fydd yn llenwi'r awyr o 8.20 hyd 10 o'r gloch.

Ymhlith y rhaglenni newydd eraill fydd *Blewyn o Drwyn*, cyfres yn gwyntyllu pynciau llosg y dydd.

Yn ôl Lyn Jones, Golygydd Radio Cymru, "Ein nod yw cryfhau ac ehangu'r gwasanaeth, a rydym wedi ymateb i'r arolwg manwl a wnaed ynglŷn â gofynion gwrandawyr Radio Cymru. Rwy'n hyderus y bydd y patrwm newydd yn apelio at gynulleidfa eang iawn, ac y gallwn roi mwynhad a difyrrwch i Gymry o bob oed trwy'r wlad benbaladr".

# PLANT ARGYNFAS

## SEIRIOL DAVIES YN YMWELD Â GWASANAETH YSGOLION YR AMGUEDDFA GENEDLAETHOL

WEDI DARLLEN am arddangosfa *The Primacy of Drawing* yn amgueddfa Bryste, dyma wneud ymdrech i ymweld â hi. Roedd y critig Marina Vaigey wrth adolygu'r arddangosfa wedi dweud mor braf oedd gweld plant a myfyrwyr yno yn astudio'r gweithiau.

Y diwrnod ês i yno roedd y lle fel ffair – yr oriel yn fach beth bynnag, a phlant ysgol o bob oedran yn penlinio, yn hanner gorweddian ar y llawr, tra'n ceisio sgwennu neu dynnu llun o lun. Prin oedd modd rhoi traed i lawr! Medd swyddog o'r oriel bod cwyno mawr wedi bod. Y broblem wrth gwrs oedd diffyg trefnu.

Nid felly yn Amgueddfa Geneaethol Cymru, lle croesewir plant a myfyrwyr a'r cyfan dan reolaeth swyddogion o'r gwasanaeth ysgolion.

Y swyddog sy'n gyfrifol am gelf yn y gwasanaeth ysgolion yw John G Rowlands, a fu'n athro celf yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth. Dwy flynedd sydd ers iddo ymgymryd â'i swydd, ac erbyn mae torreth o ddeunyddiau Cymraeg i helpu'r plant i fanteisio ar eu hymweliadau, a threfnir hefyd weithdai sy'n gysylltiedig ag arddangosfeydd arbennig.

Rhan bwysig o weithgaredd o'r fath yw'r cyfathrebu â'r ysgolion, a chyhoeddir taflen *Newyddion Celf* i hybu hynny.

Pan fûm i'n ymweld â John Rowlands, roedd yn tywys grŵp o blant o ysgol gynradd Gabalfa.

◆ Efelychiad y plant o Oriel yr Argraffiadwyr



Roedd gweld eu wynebau bach yn donic, a sylwi ar eu brwdfrydedd – y gwrando a'r holi yn syndod wrth ganolbwyntio ar thema lliw a goleuni.

Mae mwy a mwy o bwysau ar ysgolion erbyn hyn i drefnu gweithgareddau fel hyn oherwydd gofynion y cwricwlwm cenedlaethol.

Yn tanlinellu gwerth y gwasanaeth oedd arddangosfa o waith arholiad disgyblion lefel A Ysgol Esgob Llandaf, a'u gwaith yn seiliedig ar astudiau yn yr Amgueddfa, ac yn amrywio o baentiadau a lluniadau i emwaith mewn arian a gemau.

Mae gwasanaeth Cymreig John Rowlands yno i'w fanteisio arno, a rhagwelir mwy o ddatblygiadau diddorol a gwerthfawr yn y dyfodol.

## Eirwen Humphreys 1912-1991

MAE BWLCH ar ôl colli unrhyw un, a pho tynnaf y cwlwm rhyngoch â'r person hwnnw mwyaf y golled, Ond nid yn aml y mae colli rhywun yn ddiwedd ar gyfnod o hanes.

Bu farw Eirwen Humphreys fore Sul, 6 Hydref wedi rhai misoedd o gystudd, ac o'i cholli daeth pennod o hanes capel y Crwys i ben.

Merch ydoedd i Evan a Mary Humphreys a ddaeth o Geredigion i Gaerdydd ychydig cyn troad y ganrif. Fe'i ganed yr ifancaf o bedwar o blant a'u cartref yn 1 Heol y Crwys, a'i thad oedd un o flaenoriaid cyntaf capel y Crwys. O'r cychwyn cyntaf roedd ei chartref yn ymestyniad o'r capel iddi. Dywedodd "roedd yn fath o dŷ capel answyddogol a llifai bywyd cysegr i'r aelwyd".

Ar ôl ennill ysgoloriaeth i Goleg y Brifysgol Caerdydd, graddiodd ym 1933 a dilyn cwrs hyfforddi athrawon, cyn mynd i ddysgu yn ysgol Lady Margaret am flynyddoedd lawer gan weithio'n galed i feithrin ymwybyddiaeth o Gymreictod yn y disgyblion. Cafodd lwyddiant aruthrol ymhell cyn dyddiau'r cyrsiau a'r gwersylloedd ail-iaith, a daeth yn enwog fel hyfforddwraig pencampwyr adrodd Eisteddfodau'r Urdd.

Roedd hi'n Gymraeg i fêr ei hesgyrn, a'r Gymraeg mor hanfodol i'w bywyd ag anadlu. Mae'n siwr i bob meddyg a nyrs fu'n gofalu amdani yn ystod ei blynyddoedd olaf orfod dysgu deall, os nad dweud ambell i frawddeg Gymraeg. Fedrai neb fod yn ei chwmni'n hir heb glywed am Gymru a'r Gymraeg.


Roedd gofalu am ei chyd-ddyn o'r pwys mwyaf i Eirwen, a byddai'n teithio milltiroedd yn ei VW ar hyd strydoedd Caerdydd yn ymweld â chleifion. Er hynny, does dim dwywaith mai prif bwrpas ei bywyd oedd gwasanaethu Crist. Dywedodd am ei chapel "Roeddwn filwaith hapusach yno nag yn yr ysgol ddyddiol, ysgol a gasawn â'm holl galon. Nid wyf yn cofio cael fy ngorfodi i fynd i'r capel; rhyw dderbyn oeddwn i mai dyna oedd ein dull naturiol ni, fel teulu, o fyw". Cymdeithas ac nid adeilad oedd y capel iddi.

Fe'i codwyd yn flaenor ym 1958 – y ferch gyntaf i'w hethol i'r sedd fawr yn y Crwys, a bu'n arolygwr y festri am gyfnod maith, yn ymroi'n llwyr i'r achos.

Roedd ei chysylltiadau â gorffennol yr achos yn eithriadol o gryf, ond nid edrych yn ôl yn sentimental a wnaeth. Defnyddiodd rinweddau'r gorffennol fel sail i adeiladu ar gyfer y dyfodol. Mawr yw ein dyled am ei hesiampl a'n diolch iddi am ei gwaith.

# GWENLYN PARRY

## SION EIRIAN



COFIO'R ACTOR ecsentrig Freddie Jones yn dweud rai blynyddoedd nôl, ar ôl sesiwn faith a hwyliog yng nghlwb y BBC Caerdydd yng nghwmni afieithus Gwenlyn a Rhydderch "If ever I get to my personal heaven, I'd want those two lovely men as my reception committee", Petai Gwenlyn fyth yn cyrraedd ei nefoedd e, does dim angen gofyn pa hen gyfaill fyddai yno'n aros i'w groesawu ynte.

Es i ddim i ymweld â Gwenlyn yn neufis ola'i gystudd, ond mae'n amheus gen i a oedd e'n disgwyl nefoedd (neu unrhyw beth arall) ar ddiwedd y bywyd yma. Falle fod caniad ffôn ar ddiwedd *Saer Doliau* wedi argyhoeddi Ifas o fodolaeth y Giaffar anweledig – ond camgymeriad oedd y ffasiwn o briodoli ffydd Ifas i'r dramodydd a'i creodd.

Roedd Gwenlyn, ar yr ychydig adegau y'i clywais yn pendroni ynghylch y fath gwestiynau, yn credu yn nirgelion y cread ac mewn profiadau cyfriniol ac eneidiol, ond ches i rioed yr argraff ei fod e'n credu'n llythrennol mewn giaffar uwch-fydol neu allfydol. Chwalu a stilio ymhlith posibiliadau a phosau bywyd oedd dileit Gwenlyn; y cwestiynau **oedd** y neges.

Gyda balchder direidus roedd e'n mwynhau gweld eraill yn canfod gwirioneddau oesol a dyfnion yn ei waith. Wnai e ddim gwadu nac arddel y damcaniaethau yma. O fewn peramedrau'r theatr y dylid mesur gwirionedd drama yn nhyb Gwenlyn, nid mewn seiadau dadansoddiadol wedi i'r llen ddisgyn.

Sut oedd e'n mesur llwyddiant ac arwyddocad ei waith ei hun? Cofio gofyn iddo – hyn flynyddoedd nôl – ymateb pwy oedd e'n ei geisio wedi i'r teipiadur dewi neu'r gynulleidfa droi am adre. "Wel...Joy ynte..." Saib. "A mam..." Saib arall. "A'n bwysicach na neb – fi'n hun".

Mae cofio Gwenlyn a'r cyfan roedd e'n ei gynrychioli fel bodio trwy anferth o lyfr lloffion blêr a'i dudalennau'n ddiddarfod. Rwy'n siwr bod nifer ohonom oedd yn ffrindiau (a disgyblion) iddo yn methu dirnad arwyddocad y farwolaeth, gan deimlo rhyw oerni wrth synhwyro diwedd cyfnod yn ogystal â'r golled ar ôl enaid mor fawr.

Mae'r mân atgofion yn dal i ddod yn donnau. A Gwenlyn yn dal i blagio, yn gwthio'i ffordd i sgwrs a meddwl sawl gwaith y dydd. Wrth i mi drio sgrifennu'r pwt yma, cofio'n sydyn am y tro y daeth Gwenlyn â'i 'gadjet' diweddara i'w ddangos i Wil a Jim yn hen adran sgriptie Gabalfa. Roedd e wedi dod o hyd i feiro ag ynddo banel oedd yn dweud faint o'r gloch oedd hi. Tynnu ei goes a dweud y byddai'n rheitiach iddo chwilio am gloc fyddai'n gorffen sgrifennu ei ddramau drosto. A'r rheswm dros y tynnu coes hynny oedd fod ei gyd-weithwyr yn gwybod mai un gwendid Gwenlyn y sgrifennwr toreithiog oedd y pyliau hynny o ddiogi sy'n rhan o wead cymaint o bobol wirioneddol greadigol. Trwy lwc roedd Gwenlyn yn ddigon o hen law i wybod pryd i gymryd y short cyts a phryd i ymddisgyblu a cholli chwys gwirioneddol.

Doeddwn i ddim yn ei nabod yn ystod ei anterth fel dramodydd llwyfan (adeg *Saer Doliau, Tŷ ar y Tywod a'r Ffin*). Yn ei gyfnod mwy 'teleduol' y deuthum i dan ei adain, pan oedd e eisoes yn wyn ei wallt a'i fwstashyn – The Silver Fox oedd term y dramodydd Alun Owen amdano – ac yn rhyw Jean Brodie o ddyn yn magu nythiad o sgrifenwyr a golygyddion newydd. Roedd e'n parhau i ddotio at y theatr bryd hynny, ond i mi doedd y dramau diweddarach, sef *Y Tŵr, Sal* a *Panto* ddim mor theatrig a chymen â'r dramau cynharach. Ond dyma'r cyfnod, o flynyddoedd cynnar y saithdegau ymlaen, lle y bu dylanwad Gwenlyn ar ddramau a chyfresi teledu Cymraeg yn wirioneddol aruthrol, a bron na fentrid dweud bod ei gyfraniad yn anfesuradwy.

Mae'r dylanwad yma'n dal i fyw mlaen yn y genhedlaeth o gydweithwyr a chywion fu wrth draed Gamaliel, y rhai a hyfforddwyd ac a ysbrydolwyd gan Gwenlyn. A chyn bwysiced â'r ddawn fawr a'r gweithiau o werth arhosol, roedd Gwenlyn yn fwy caredig ac yn fwy hwyliog a hoff nag unrhyw sgrifennwr arall y gwnaethon ni gyfarfod nac y byddwn ni'n debyg o gyfarfod fyth.



Mae llun Nadolig y Dinesydd eleni i'w weld yma yng Nghaerdydd yn y Gadeirlan yn Llandaf.

Comisiynwyd y gwaith yn y cyfnod pan oedd John Pritchard a John Seddon y penseiri yn adnewyddu'r adeilad. Dylanwad Seddon yn bennaf fu'n foddion ychwanegu nifer o weithiau cain gan Burne Jones a William Morris, aelodau o ysgol y cyn-Raphaeliaid.

Danté Gabriel Rosetti (1828-82) oedd paentiwr y gwaith hwn *Had Dafydd*, a gomisiynwyd ym 1855. Bu'n rhaid aros hyd 1864 cyn iddo orffen y gwaith a chael ei osod o dan y bwa lle mae'r allor erbyn hyn.

Defnyddiodd Rosetti ei wraig Elizabeth, a Jane, gwraig William Morris fel modelau yn nifer o'i ddarluniau. Mae *Had Dafydd*, y panel canol o'r triptych, yn enghraifft o'r modd y swynwyd Rosetti gan wedd arbennig a hardd y merched hyn.

Dyma'i fersiwn ef o'r Stabl Sanctaidd, sy'n ddigon tebyg i ddarlun sydd gan ei chwaer Christine Rosetti yn ei charol *Yn y Gaeaf Noethlwm*.

Atgyweiriwyd y triptych yn ddiweddar, ac mae i'w weld yng Nghapel Sant Illtyd i'r chwith o'r Porth Gorllewinol.

• ***Tynnwyd llun y clawr gan David Lewis ABIPP, AMPA, STP Photography, Caerdydd***

## Y LLON A'R LLEDDF

Bu farw E T Edwards, tad Meirion a Marguerite. Cydymdeimlwn â hwy a'u teulu yn eu profedigaeth sydyn o golli tad a thaid.

Bu farw'r Dr Bryneilen Griffiths, chwaer Dr Rosentyl Griffiths, y cyhoeddwyd erthygl amdanynt yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd. Ein cydymdeimlad â'r teulu cyfan.

Llongyfarchiadau i Elin Wyn ac Andrew Wilkinson ar enedigaeth Mathew Rhys.

Llongyfarchiadau i Rhian a Chris Jones ar enedigaeth Llinos Eleri.

# POB UN YN CERDDED

*Amgueddfa Genedlaethol Cymru*

## Y GOEDEN NADOLIG

yn
AMGUEDDFA WERIN CYMRU
Sain Ffagan, Caerdydd

Iau/Gwener, 12/13 Rhagfyr 1991, 2 - 9p.m.

Oedolion £3.00 Plant £1.50

Goleuo'r Goeden Nadolig ( 6.30 nos Iau )
Siôn Corn yn Dosbarthu Taffi
Y Fari Lwyd a Dawnsio Gwerin Diod Nadolig a Mins Peis
Canu Carolau yng Nghapel Pen-rhiw
Addurniadau Traddodiadol yn Nhai Rhyd-y-car
Chwaraeon Aelwyd Band Pres
Gweithdy i Blant Ffair Grefftau a Chynnyrch
Stondinau Loshin Crefftwyr Arddangos

**I gyd ar agor: Siop yr Amgueddfa, Siop Gwalia, Y Lle Bwyta ( Bwydlen Dymhorol ), Popty'r Dderwen**

***Dowch yn gynnar, os yn bosib, a chofiwch ddod â fflachlamp ar ôl tua 4.30 !***



*Noddir y goeden gan Tetra Pak Wrecsam Cyf.*
*Noddir goleuadau'r goeden gan Trydan De Cymru*

---

**Rhondda**

## DATHLIADAU NADOLIG

**Dydd Sadwrn a Dydd Sul,
Rhagfyr 14-15, 11am-5pm**

Dewch i gwrdd â Siôn Corn
neu i brynu anrheg Nadolig ychydig yn wahanol o'n Ffair Grefftau Nadolig

Dewch i wrando ar gorau plant neu ar fand pres.
Ymunwch gyda ni yn ein Gwasanaeth Carolau Blynyddol
o amgylch y Goeden Nadolig am 4pm, brynhawn Sul

Profwch Nadolig y Cymoedd
yn awyrgylch unigryw Parc Treftadaeth y Rhondda!

Dim on 30 munud o Gaerdydd

Am fanylion pellach ffoniwch Mary Scourfield ar (0443) 682036

---

## THE LOVESPOON GALLERY



er mwyn dod o hyd i wir naws y Nadolig

Dewch i ymweld ag oriel y llwyau caru
gyda channoedd o weithiau gan sawl crefftwr unigol!

Yn y Lovespoon Gallery cewch ddethol anrheg traddodiadol a chywrain o waith llaw, o gerfiad bychan i gynllun cymhleth, a phrisiau o £2 i £200

Ar gyfer yr anrheg Nadolig perffaith, neu anrheg penblwydd, priodas, bedydd, priodas penblwydd ac achlysuron pwysig eraill, dewch i

THE LOVESPOON GALLERY
25 Stryd y Castell, Caerdydd
(gyferbyn â'r Angel)
Hefyd yng Nghaerfyrddin a'r Mwmbwls

---

## celtic asset management cyf

AELOD O GYMDEITHAS REOLI CYFRYNGWYR, RHEOLWYR A BROCERIAID ARIANNOL

*Rydym yn*

- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd buddsoddi**
- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd a chynlluniau pensiwn**
- **Arbenigo ar arbed treth ar etifeddiaeth**

*ac yn*

**Gwbl annibynnol a di-duedd fel y gallwn ddethol y "buddsoddiadau" mwyaf addas i'r unigolyn neu'r cwmni.**

**TŶ PENHILL,
11-13 HEOL PENHILL, CAERDYDD**
CF1 9UP
Ffôn (0222) 394021/4 Ffacs (0222) 383803

---

***Yr Anrheg Nadolig Ddelfrydol***

## Y Beibl i Blant mewn 365 o Storïau

**416tt. £9.95**

- Stori o'r Beibl ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn
- Llyfr cyffrous, rhwydd ei ddarllen a'i ddeall, sy'n dod â'r hanes yn fyw o flaen eich llygaid
- Dros 200 o luniau lliw hardd sy'n cyfleu awyrgylch ac ergyd pob stori
- Cyfrol anhepgor ar gyfer pob aelwyd, ysgol ac ysgol Sul

***Cofiwch hefyd am . . .***

**Calendr 1992: Llewyrch i'm Llwybr** £2.25 (yn cynnwys amlen). Llun lliw hyfryd ar gyfer pob mis ac adnod ar gyfer pob diwrnod.

**Y Testament Newydd Diwygiedig** 800tt. £5.50. Maint poced. Yr hen gyfieithiad mewn diwyg modern gyda geirfa gyfoes.

**Carolau a'u Cefndir** E. Wyn James. 94tt. £4.95. Detholiad o dros 40 o garolau, gyda chyflwyniad i'w cynnwys a'u cefndir.

**Cyfres 'Storïau'r Jyngl'** Paul White (cyf. Einir Jones) 60c yr un. Pedwar comic wedi'u haddasu i'r Gymraeg gan Fardd y Goron. Lluniau lliw gwych; storïau doniol a chyffrous.

GWASG EFENGYLAIDD CYMRU
**Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr, Canol Morgannwg CF31 4DX**

## CYNNIG ARBENNIG

Os ewch â'r hysbyseb hon cyn 30 Ionawr 1992 i'r

SIOP LLYFRAU CRISTNOGOL
7 Wyndham Arcade, Caerdydd (cyferbyn â'r 'Holiday Inn')

fe gewch ostyngiad o £1 ar bob copi o'r
**Beibl i Blant mewn 365 o Storïau** a brynwch yno.

# CHWEDL A CHOEL A CHANNWYLL YN OLAU

ROBIN GWYNDAF

***Y tri lle oera 'Nghymru***
***Yw Mynydd Bach y Rhydri,***
***Twyn-y-garth a'r Cefan-onn,***
***Lle buo'i bron â sythu.***

DYNA UN o hen dribannau hyfryd Morgannwg. Do, fe ddaeth y tywydd oer ar ein gwarthaf; mae'n nosi'n gynnar, a pha well adeg o'r flwyddyn i glosio at y tân ac i wrando ar stori neu ddwy.

Yn gyntaf oll, felly, cyfeiriad byr at chwedl â blas y Nadolig arni. Un tro pan oedd Mair a Joseph yn cyd-gerdded daeth chwant bwyd ar Mair, ond gwrthododd Joseph estyn iddi'r aeron o'r gangen uwchben. Meddai wrthi'n wawdlyd, yng ngeiriau hen gerdd Saesneg a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Aneirin Talfan Davies:

*Gad iddo dynnu'r ceirios*
*Sy'n dad i'th blentyn di.*

Ond dyma lais y baban Iesu o groth Mair yn llefaru:

*Di goeden dal ymgryma,*
*Rho geirios coch i mam.*

A dyna'n wyrthiol sy'n digwydd.

Mae chwedl arall am fwyta aeron coch yn cael ei hadrodd y tro hwn am Santes Canna, santes sy'n gysylltiedig â Llan-gan ym Morgannwg a Dyfed, â Phontcanna a Threganna yng Nghaerdydd, ac â fferm Canna ym mhlwyf Llandaf. Daeth awydd bwyd arni hithau un tro pan oedd yn feichiog. Gafaelodd mewn cangen grin o bren cerddinen, ond y foment honno, wele wyrth. Dyma geirios coch braf yn tyfu ar y pren.

Da a drwg; Duw a Diafol. Mae'r naill a'r llall yn cael sylw mewn llên gwerin. O Bontcanna i Dreganna, a down yn fuan at dafarn y Dusty Forge ar Heol Orllewinol y Bontfaen. Hen efail oedd yma gynt. Un tro, medd y chwedl, cafodd gwraig y gof ei deffro berfedd nos. Cododd a gwelodd mei lord y Diafol yn morthwylio ar yr einion, yn brysur iawn yn gwneud pedolau i'w draed fforchog. Rhuthrodd y wraig i gwt yr ieir. Tybiodd y ceiliog ei bod ar wawrio, ac fe ganodd. Mae'r Diafol yn ofni haul y bore, medden nhw, a diflannodd nerth esgyrn ei draed, gan adael ei bedolau ar ôl ar yr einion.

O'r hen efail a'r dafarn dychwelwn i ganol y ddinas ac i Gastell Caerdydd. Roedd ysbryd yno gynt, yn ôl y sôn. Felly hefyd yng Nghastell Coch lle mae tri eryr mawr ffyrnig hyd y dydd heddiw, medd y chwedl, mewn cell danddaearol yn gwarchod trysor Ifor ap Cadifor – Ifor Bach – Arglwydd Senghennydd, hyd nes y dychwel drachefn gyda'i 'ddeuddeg cant o wŷr Morgannwg'.

Ond cofiwn nad adrodd storïau am ysbrydion ac ati er diddanwch yn unig a wnai ein hynafiaid. Roedden nhw hefyd yn credu'n ddiffuant iawn yn realiti'r byd arall goruwchnaturiol. Credu, er enghraifft, mewn rhagarwyddion marwolaeth, fel gweld toili (o'r gair 'teulu'), sef rhith cynhebrwng, neu weld cannwyll gorff – golau gwan yn symud yn araf, o gartref person sydd ar fin marw, i'r fynwent.

Ofn, breuder bywyd, a'r dyhead am sicrwydd ac am gael gwybod yr anwybod, dyna yw pennaf sail y coelion gwerin hyn. Ond yn nhymor y Nadolig fe gofiwn am eni'r Iesu, goleuni'r byd, a ddysgodd inni fod 'perffaith gariad yn bwrw ymaith ofn'. Daliaf innau ar y cyfle wrth gloi'r nodyn hwn i ddymuno llawenydd yr Ŵyl i'r holl ddarllenwyr. A'r un modd i ddiolch am bob cannwyll sy'n olau ac am y sicrwydd na all y tywyllwch eithaf ddiffodd y gannwyll leiaf.

◆ Rhith cynhebrwng y toili




## y Calendar

**9 RHAGFYR**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Cameo Nadolig

**10 RHAGFYR**
Cymdeithas y Tabernacl. Carolau o dan arweiniad Rhian James ac Enid Arwel Hughes

**12 a 13 RHAGFYR**
Goleuo'r Goeden Nadolig yn Sain Ffagan, gyda Siôn Corn, y Fari Lwyd, a llwyth o firi tymhorol

**13 RHAGFYR**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd. Noson yng nghwmni aelodau Cymdeithas Ddrama Eglwys y Crwys

**14 RHAGFYR**
Dafydd Iwan yng Nghlwb Ifor Bach

**16 RHAGFYR**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch. Noson Garolau yn Eglwys Sant Pedr

**17 a 18 RHAGFYR**
Joseff a'i Got Amryliw. Sioe gerdd Nadolig Ysgol Glantaf

**18 RHAGFYR**
Clwb Cam Ymlaen. Tŷ'r Cymry

Cymdeithas Ieuenctid Cymraeg Caerdydd. Parti Nadolig. Lleoliad i'w gadarnhau

**31 RHAGFYR**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. Swper y Llanciau a Gwasanaeth Gwylnos

**6 IONAWR**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch. Y Fari Lwyd, gyda Roy Saer

**7 IONAWR**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. Gweini Tymor yn yr India, gydag Abigail Loring

**10 IONAWR**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd. Tseina, gyda Ted Edwards

Fi a Mr Louigi, Cwmni Theatr Bara Caws, Ysgol Gyfun Llanhari. Manylion 231856

**13 IONAWR**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Llun a Stori

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Gweld Atomau, gyda Dr Emyr McDonald

**14 IONAWR**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. Ar Lafar ac ar Gân

Cymdeithas Minny Street. Noson gan Eilonwy Jones

**15 IONAWR**
Clwb Cam Ymlaen. Tŷ'r Cymry

**17 IONAWR**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Kate Roberts a Phobl Dinbech, gyda'r Parchg Cynwil Williams

**20 a 21 IONAWR**
Tanddaearol, Cwmni Theatr Hwyl a Fflag yn y Sherman. Manylion 230451

**21 IONAWR**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. Cwm Rhymni, gyda Gareth Price

**24 IONAWR**
Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl. Ymweld â Chymdeithas Capel y Crwys

**28 IONAWR**
Cymdeithas Minny Street. Ymweliad gan Gymdeithas y Tabernacl

**29 IONAWR**
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Emyr Jenkins

**Manylion ar gyfer y Calendar at Lynn Jones, ffôn 562816**

A PHAWB YN WIR MEWN HELBUL MAWR

# Annwyl Siôn Cor

## Tybed beth ddaw dros y bryn yn ddistaw ddistaw bach yn sach Siôn Corn eleni?

Annwyl Siôn Corn

Y nadolig hon
Rydw i eisiau tipyn bach mwy o drysu y sau
A tedi cwningen achos, Rydw i yn hoffi nhw
yn fawr iawn. A licen i gael cris ti Kylie
minogue a falle top newydd o honi. A cwpwl
o bands gwallt newydd. Os gwelwch yn dda.



oddi wrth
Alys
XXXX.

Annwyl Sion corn.
Os gwelwch yn dda
gal rhai o'r anrhegion yma ar y Nadolig
Electric guitar, Scalextric,
Chatbot, Video o Michael Jackson, My Soccer Set,
Atari Lynx, Sega mega drive, goly Nevell
Southall, golly kit,
Diolch yn fawr iawn
Mathew





Annwyl Siôn Corn

Pan (ac os) fyddwch chi'n galw, allwch chi fynd mewn i'r sied yn yr ardd (gan fod yn ofalus nad yw Riwdolff yn gwneud ychs ar y lawnt...) a chasglu'r presantau yma, a'u rhoi nhw i rywun teilwng.

1. Y llun o Emyr Wyn gês i ganddo fe llynedd fel anrheg priodas
2. Llyfr Alan Williams AS "Fy ymdrech dros yr iaith"
3. Fideo diweddara Huw Ceredig "Cadw'n heini heb symud"
4. Record diweddara Dafydd Hywel "yn fyw o'r Cameo" – "sut i wneud ffrindiau mewn llefydd uchel, a dylanwadu ar bobol".
5. Caset WRU "Buddugoliaeth cofiadwy Cymru 1990-91" (neu jest tâp gwag os yw hyn yn amhosib).
6. Hunangofiant Dafydd Iwan "Cordiau gwych rwyf wedi eu chwarae"
7. Casgliad o'r galwadau ffôn difyrra ar Stondin Sulwyn neu "Insomnia - yr ateb"
8. Llyfr newydd Ieuan Rhys "100 o jôcs da rwyf wedi eu dwyn oddi wrth Dewi Pws.
9. Llyfr newydd Glan Davies "100 o jôcs Ieuan Rhys nag wy'n deall..."

ac yn ola

10. Gêm newydd S4C "Mae'r siec yn y post" (yn anffodus does dim rheolau yn dod gyda hwn).

Dewi X



# EWN HELBUL MAWR

## A PHAWB YN WIR MEWN HELBUL MAWR

Annwyl Siôn Corn

Merch fach syml ydw i ac felly cais bach syml sydd gen i eleni – wel pedwar a dweud y gwir!

1. Deg o ewinedd hir ar fy nwylo – rhai cryf, deniadol hefo jyst diogon o wyn yn dangos; deg o ewinedd elegant fydd yn edrych yn berffaith pan fydda i'n dal gwydraid o rwbath neis o Marks hefo bybls ynddo fo. Dwi wedi trïo stopio'u cnoi nhw sawl gwaith ond fedra i ddim....wps, dyna un arall wedi mynd!

2. Copi o "Allan Carr's Easy Way to Stop Smoking" i fy holl ffrindiau smyglyd sy'n dal i smocio. Fel un sydd wedi gallu osgoi cymryd yr un drag o'r hen betha afiach erioed, mi ges i bleser anhygoel eleni o weld fy ngwr a nifer o ffrindiau da eraill yn rhoi'r gorau iddi 'jyst fel'na' ar ôl darllen y llyfr gwych yma – briliynt piliynt!

3. Coes newydd i 'nghyfaill a'm "gwr teledu", Dewi Morris a dynnodd bob math o bethau yn ei benglin tra'n chwarae sboncen (twit!), Plîs gwna hyn yn bosibl er mwyn i mi allu rhoi cic neu ddwy reit hegar iddo fo yn y gyfres nesaf o "Hapus Dyrfa" (a fydd gyda llaw Siôn Corn ar y sgrîn eto yn y Gwanwyn!)

4. Ac yn olaf, pryd o fwyd Indian yn cynnwys Chicken Kurma, Chicken Dhansak, Pillau Rice, Bombay Potato a dau poppadum – mmmmmmmm!! Just un peth arall Siôn, elli di wneud yn siwr mai dim ond pedwar calori sydd yn y fwydlen uchod!





Annwyl Siôn Corn

Pwt bach atoch o'r diwedd, i ddiolch i chi am yr holl Nadoligau hapus dwi wedi eu mwynhau yng nghesail y teulu.

Rown i wedi bwriadu sgwennu atoch chi bob blwyddyn i ddiolch yn bersonol i chi am eich caredigrwydd a'ch cymwynasgarwch, ond dwi ddim yn gwybod ble mae'r amser wedi mynd.

Ie, dyna'r bwgan ynde, diffyg amser – felly Siôn Corn bach, petae'n bosib, fyddech chi mor garedig eleni ag anfon llyfryn o ganllawiau i mi ar sut i ddefnyddio fy amser yn well – gan sicrhau mod i'n cael amser i weithio, amser i gymdeithasu dipyn, a ffeindio'r amser i gyfrannu'n llawnach at fywyd y gymdogaeth dwi'n byw ynddi.


O.N. Gobeithio i chithau fwynhau'r brandi dwi wedi adael ei chithau!!!



Annwyl Siôn Corn

Dyma nghyfle o'r diwedd i gael dymuno diwedd i newyn yn y trydydd byd, ffordd o wella cancr, rhyddid i Gymru, neu sicrwydd i'r coedwigoedd trofannol.

Ond ddoe fe dorrodd fy mheiriant golchi a dwi'n boddi mewn babygros a thrôns. Plîs, caiff problemau'r byd aros am 'leni, ac a gaf i beiriant newydd os gweli di'n dda?



Annwyl sion corn

Os gweiwch yn dda a gaf i gemau ac beic mawr coch. Mae gen i frawd or enw Gareth. Mae e'n bump oed ac mae yn hoffi cael anrhegion oddi wrth sion corn. Mae eeisiau pel mawr lliwgar oddi wrth sion corn.

Diolch
oddi wrth
Nerys

# Menna'n Manylu

DWI'N RHY HEN! Ydw wir, fedrai byth gystadlu yn Steddfod y Ffermwyr Ifanc eto. Er mai 26 ydi'r oed cenedlaethol, mae Cangen Meirionnydd yn hael iawn yn ei godi chydig uwch, a dwi 'di pasio hwnnw hefyd!

Ta waeth, mae'r Steddfod newydd fod, a chystadlu brwd a safonol fel arfer. Cystadlu fu'r hanes yn ein capel bach yng Nghynllwyd hefyd, a braf gweld hen draddodiad yn dal i ffynnu a phawb yn ymuno mewn gwahanol gystadleuthau – o wythawd i ganu cerdd dant, o dynnu llun i englyna, a dim cythrel cystadlu i'w synhwyro o gwbwl, ond mi oedd mam yn haeddu cynta efo'i thaffi!

Cystadlu ar lefel mwy uchelgeidsiol oedd y nod yn yr Ŵyl Gerdd Dant gynhaliwyd eleni yn y Barri, ond fethes i fynd yno tro yma, a dynne pam mai trydydd gafodd y côr dicini. Penwythnos difyr yn Alton Towers ges i yn dilyn llwyddiant fy nai yn ennill gwylie i'r teulu ar Slot 23. Roedd y camerâu teledu yno a ninne rêl VIPs yn cael mynd o flaen ciwie o gannoedd o blant a phobol mewn oed oedd yn eiddgar i fynd ar y prif atyniade – y *logg* anturus, *mouse trap* erchyll a'r *cork screw* uffernol! Mi fuodd bron i mi lewygu a cholli mhen, ond am reswm gwahanol. Cawsom westy moethus tu hwnt yn Ashbourne a noson tân gwyllt efo cerddorfa a galeuadau laser gwefreiddiol yn esgus bod yn gynulleidfa yn glanio ar y lleuad.

Nôl i'r ddaear a dyma dreulio noson yn y theatr yn gweld *Dim ond Heno* gan Gwmni Theatr Gwynedd. Fe'i gwelais yn y Steddfod hefyd, ond roedd y perfformiad hwn yn fwy siomedig – yr actio'n gyffredinol, y newidiadau i'r diweddglo ac ymateb y gynulleidfa – mae chwerthin yn iawn yn ei le, ond nid yn y mannau emosiynol a seriws. Ond doedd dim yn amharu ar wychder cyhyrog corff Alun Elidir yn ei drôns – mi gododd hwnnw......fy nghalon beth bynnag.

Perfformiad arall weles i oedd gan Camre Cain a Jess yn Chapter. Wyddwn i ddim be i ddisgwyl, ond mi ges awr o fwynhad pur wahanol i'r arfer yn gwrando ar gerddoriaeth a sain gwych y grŵp ac ar berfformiad corfforol ac egniol y tair dawnswraig brofiadol. Neges ar gân a dawns cyfoes a thaflunydd llunie oedd yma am effaith y Gymraeg a diwylliant ar fywydau'r dawnswyr, ac roedd ôl paratoi trylwyr i bob curiad a symudiad. Braf hefyd oedd gweld pob aelod o Jess yn dawnsio mor ddyheuig yn eu tro – chydig o bractis eto a mi fydde Brychan Llŷr gystal â'r un Michael Jackson yn ei drowsus lleder tynn. Dolig llawen i bob 'Wa'.

SIÔN CORN CYMRAEG
Adran Deganau Dan Evans y Barri
Bob pnawn Sadwrn yn Rhagfyr
1.30pm - 5.00pm
dan evans
Y siop i bob aelod o'r teulu
Heol Holton
Y Barri
0446 734242

Ar Werth
Caernarfon
Tŷ teras braf,
dwy lofft a gardd
Ffoniwch
0970 611553 (nos)
neu 0222 711681

Huw Roberts BSc, ACMA
*Cyfrifydd*
*Nadolig Llawen*
*a Blwyddyn Newydd Dda*
Aelod o FIMBRA
*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol*
Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills,
Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA
Ffôn Llantrisant (0443) 224182

DIWRNOD AIDS BYDEANG 1 RHAGFYR
AIDS
rhaid i ni gyd rannu'r sialens
gall aids effeithio ar bawb
Canolfan Cydlynu HIV De Morgannwg,
Tŷ Abton, Heol Wedal, y Rhâth, Caerdydd CF4 3XQ
Ffôn 0222 522011

# DEUD FY NEUD
## Cadi Llwyd

Mae 'na ffordd ar roi Wil yn ei wely, meddai'r hen air, a dyna aeth drwy fy meddwl wrth ddarllen am y cytundeb a wnaed rhwng BT a'r undebau, a fydd yn ôl pob tebyg yn golygu tâl ychwanegol o dros £2000 y flwyddyn i'r gweithwyr sy'n siarad Cymraeg.

Iawn. Mae pawb isio byw, ac yn hoffi cael rhagor o bres bob amser. Ond rhoswch chi funud. Bu'r undeb yn ymladd am 15 mlynedd am dâl iaith ychwanegol i'w gweithwyr dwyieithog yng Nghymru. A hyd nawr bu BT yn dadlau yn erbyn y taliadau am nad iaith estron yw'r Gymraeg yng Nghymru, medden nhw.

Yn cytuno gant y cant. Ond yn y gorffennol bu BT, fel llawer cwmni mawr arall yng Nghymru, yn hir hoedlog iawn yn defnyddio'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg. Ac roedd y ddadl yma dros hawliau'r Gymraeg yn arbed arian iddyn nhw, wrth gwrs.

Ond peidiwch â meddwl bod BT yn torri tir newydd yn hyd o beth. Dim ffiars o beryg.

Pan oeddwn i'n gweithio yn y BBC yn y 60au, roedden ni'r Cymry Cymraeg yn cael saith swllt a naw ceiniog yr wythnos o dâl ychwanegol, y 'foreign language allowance' bondigrybwyll.

Mi wnes i brotestio nad foreign language oedd y Gymraeg i mi yn fy ngwlad fy hun. Rwy'n cofio Mags Watkins, y swyddog personel ar y pryd, yn gofyn i mi drwy darth o fwg Woodbine, "Ych chi'n siarad Saesneg?". "Ydw", meddwn i. "Wel 'na ni 'te. Ych chi'n cael 7s9d am siarad Saesneg. Dyna'ch foreign language chi!".

Oes, mae ffordd ar roi Wil yn ei wely. Ond y trueni ydi na fyddai mwy o Mags Watkins a'i thebyg ar bwyllgor Bwrdd yr Iaith, ynte! Dim ond brawddeg sydd ei hangen i newid pethau'n aml.

**Dowch chithau'n ffan i Cadi. Sgwennwch ati â'ch dadl i'r Clwb Cadi-Ffan, y Dinesydd, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL**

# FO'R NADOLIG YN NESAU!

# AR GYFER HEDDIW'R BORE

## WYNNE LLOYD YN ATSEINIO YN EIN HETIFEDDIAETH GERDDOROL ADEG Y NADOLIG

BETH FYDDAI'N treftadaeth gerddorol heb y Nadolig tybed? Fedra i ddim dychmygu'r Wyl unigryw hon heb fiwsig ac mae'r dystiolaeth yn ddigon pendant i'r angylion ganu mawl i ddyfodiad Crist i'n byd.

Mi fydda i'n eitha hoff o drefn yr eglwys dros gyfnod y disgwyl, sef yr Adfent. Erbyn heddiw mae cerddoriaeth y tymor hwn o baratoi mor gyfarwydd â cherddoriaeth y Nadolig ei hun.

Am wn i y gellir priodoli llawer o hyn i'r traddodiad Anglicanaidd, ac yn arbennig felly yng Ngaergrawnt.

Ers blynyddoedd bellach caiff gwasanaeth yr Adfent ar Sul cyntaf Rhagfyr ei ddarlledu ar Radio 3. Daeth y darllediad hwn yn ran o galendr cerddorol diwedd blwyddyn, ac mae'r diolch yn bennaf i George Guest gan mai o gapel Coleg Sant Ioan y daw'r achlysur. I fyny'r ffordd mae Coleg y Brenin sydd wedi magu traddodiad gwasanaeth y Naw Llith a Charol sy'n cael ei darlledu ar y radio Noswyl y Nadolig am dri'r prynhawn.

Mae naws arbennig i'r ddau gôr ac i'r dewis o garolau adfent sy'n eang eu hapêl gydag ambell i garol o Gymru yn newis y Dr Guest. Wn i ddim beth ddaw ohonio o hyn ymlaen ac yntau, a Jeremy Huw Williams, wedi dod i ddiwedd eu cyfnod coleg.

Cerddor y bydda i'n troi'n aml ato adeg yr Adfent yw Johann Sebastian Bach. Fel cyfansoddwr wrth ei broffes a dreuliodd gymaint o'i oes yng ngwasanaeth yr eglwys Lwtheraidd, gadawodd gyfoeth o gantawdau.

Cyfansoddodd gannoedd ohonynt i'w canu yn y gwasanaethau, ac mae ei gantawdau ar gyfer yr Adfent yn drysorfa gyfoethog. Cyfansoddai at y Suliau ac at y gwyliau arbennig. Penllanw'r Adfent yw'r Nadolig a chaiff hyn ei adlewyrchu ganddo.

Wedi cyfres o gantawdau'r Adfent daw chwe chantawd sy'n clymu wrth ei gilydd dan yr enw *Oratorio'r Nadolig*. Mae cytgan agoriadol y gantawd gyntaf yn yr Oratorio'n awdl foliant i Fab Duw yn y crud llwm. Mae'r gytgan yn tasgu gan lawenydd a does dim rhagori ar seiniau *Gristion Bydd Lawen* wedi i'r clychau daro deuddeg a'n dwyn i wawr y Geni.


Erbyn i'r chwech gael eu clywed fe fyddwn ni wedi cyrraedd y flwyddyn newydd a dyma ni mewn i dymor eglwysig arall. Mae gennym ni yng Nghymru ein trysorau cerddorol sy'n perthyn yn arbennig i'r Adfent a'r Nadolig. Ar wahân i'r alawon a'r geiriau sy'n codi'n uniongyrchol o'n hetifeddiaeth gynhenid megis *Ar Gyfer Heddiw'r Bore, Deffrown Deffrown, Wele Gwawriodd a Roedd yn y Wlad Honno*, fe fabwysiadwyd carolau estron yn ddi-drafferth. Mae *O Deuwch Ffyddloniaid, O Dawel Ddinas Bethlehem*, a *Ganol Noethlwm Aeaf* yn eistedd yn gwbl gysurus yn ein traddodiad.

Mae disgiau a chasetiau ar gael bellach a does dim angen i neb fod yn brin o wrando ar gerddoriaeth o bell ac agos sydd wedi ei hysbrydoli gan yr Ymgnawdoliad. Gwyn ein byd.

# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 115

## Rhagfyr • Ionawr 1991



Rhywbeth gwahanol dros y Nadolig! Dyma restr o enwau. Y gamp y tro hwn fydd gosod yr enwau i gyd yn y patrwm i wneud croesair cyflawn. Wele hefyd restr o eiriau cyffredin i lenwi bylchau gan fod enwau priod braidd yn anystywallt i'w trafod. Gan nad oes cliwiau y to yma, nid oes angen rhifau. Awgrymaf eich bod yn defnyddio pensil i ddechrau rhag ofn y bydd rhaid newid y cynigion cyntaf.

**Enwau**
Ardal y Fign, Llyn Cwellyn, Plas Gregynog, Bangor-is-coed, Meirionnydd, Pryderi Cwmrhydyceirw, Menai, Rhigos, Cymer Porth, Mynach, Rhosgadfan, Dyfed, Pencraig, Sir Fflint, Ffynnon Tal, Plas Gogerddan

**Geiriau Llanw**
byrgoes, loes, rwan, coesgam, llyfnwyd, herc, ini af

Yn ysbryd y Nadolig cynigir dau docyn llyfr am £5 yr un i'r ddau gynnig cyntaf ddaw o'r het. Enw a chyfeiriad fel arfer ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 11 Ionawr.

**Cystadleuaeth Rhif 114**
Daeth ugain ymgais i law. Gwall mân neu ddau mewn pedwar ohonynt, ond yr un-ar-bymtheg arall yn hollol gywir. Yr enw a ddaeth allan ar hap oedd Meurig Thomas, 73 Angus Street, y Rhâth, ac ef a gaiff y tocyn y tro hwn. Mae'n werth nodi'r pymtheg arall oedd yn berffaith gywir: Michael Francis, Casnewydd; BT Cyncoed; ARR Abertawe; Robin Bateman, Yr Eglwys Newydd; James Wiegold, Rhiwbeina; BH Cyncoed; Gwenda Hopkins, Llanisien; Mair Tysul Jones, Yr Eglwys Newydd; Marged Davies, Llandaf; Morfudd Davies, Aberaeron; Dilys Gunston, Penylan; Huana Simpson, y Bontfaen; Margaret Jones, Cyncoed; Eira Jones, y Mynydd Bychan; John Breese, Glanyrafon.




**DANIEL**
**Hettie Emily**
**Er Cof**
Dymuna'r Parch Moelwyn Daniel, "Preseli", 101 Erw Goch, Rhuthun, Clwyd, a'r teulu gydnabod yn ddiolchgar pob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar adeg colli un a oedd mor annwyl. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael tuag at Gymorth Cristnogol.

**LYNN JONES**
Aelod o FIMBRA
Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau
30 Highfields, Llandâf,
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

**I'w Gosod**
dwy ystafell yn y Rhâth, o'r Nadolig ymlaen
£25 yr wythnos
Ffoniwch
0222 464415

**Yn Eisiau**
cynorthwywraig yn y ty i fam brysur i 3 o blant yn ardal Penylan.
O 3.45pm - 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener.
Ionawr ymlaen
Ffoniwch
0222 484279

**Yn Eisiau**
o Ionawr 1992 ymlaen, rhywun cymwys i ofalu am blentyn 4 mis oed o ddydd Llun hyd ddydd Gwener, rhwng 9.30am a 5.30am
Ffoniwch
0222 564193

lluniau lliw cyf

YN CYFLWYNO

# NOSON YR HELIWR

DRAMA GYFFROUS

GYDA

PHILIP MADOC A HYWEL BENNETT

AR NOSON NADOLIG

A

# MWY NA PHAPUR NEWYDD

CYFRES III

YN CYCHWYN AR IONAWR Y 5ED 1992

---



Daffodil

yn cyflwyno

## LICYRIS OLSORTS

Cyfres Gomedi Newydd o Gwm Tawe

Nos Sul, Ionawr 5ed 1992 am 7.25 o'r gloch

S4C

---

# FI A MR LOUIGI

GAN MAIR GRYFFYDD

BARA CAWS

YSGOL GYFUN LLANHARI

NOS WENER 10 IONAWR 1992

TOCYNNAU 0222 231856

---

## Mae angen Cyfundrefnau a'u Sylfeini yn y gymuned a Hyfforddwyr unigol ar gyfer

WELCOME HOST · CYNLLUN CROESO

Rhaglen hyfforddiant yw'r **Cynllun Croeso** a gynlluniwyd gan Fwrdd Croeso Cymru er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn cael gwasanaeth a chroeso o'r safon uchaf.

Er mwyn sicrhau llwyddiant bydd angen cyfundrefnau sydd â'u sylfeini yn y gymuned leol fel y Siambr Fasnach, Cymdeithasau Ymwelwyr ac ati i sefydlu a rhedeg rhaglen yn eu hardal.

Mae rhaid i ni hefyd recriwtio unigolion sydd â diddordeb mewn dod yn hyfforddwyr **Cynllun Croeso** profedig.

Dylai cyfundrefnau ac unigolion sydd â diddordeb ysgrifennu am fanylion pellach at:

Uned Cyswllt Hyfforddi
BWRDD CROESO CYMRU
Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan
Caerdydd CF2 1UY

Cynllun Bwrdd Croeso Cymru mewn partneriaeth â Chynghorau Hyfforddi a Menter Cymru.

---

Menter a Busnes

## GOHEBYDD BUSNES

Oes diddordeb gyda chi ym myd busnes? Hoffech chi sgwennu straeon i'r Dinesydd? Ydych chi'n ffansio bod yn ohebydd busnes i ni?

Mae Menter a Busnes wedi gwahodd y Dinesydd i anfon straeon am fentrau lleol atyn nhw tua pum gwaith y flwyddyn ar gyfer cystadleuaeth Menter y Mis, ac yn noddi'r straeon a gyhoeddir.

Am fanylion pellach cysylltwch â Shân Emlyn ar 0222 567438

---

Mudiad Ysgolion Meithrin

# SWYDDOG/ION DATBLYGU DE MORGANNWG

33 awr yn cynnwys gwaith anghenion arbennig
(un swydd neu rannu)
Cefnogir y swydd gan dîm brwdfrydig o wirfoddolwyr.
Darperir swyddfa. Gwyliau ysgol yr Awdurdod Addysg.

Am fanylion pellach cysyllter â:
Y Cyfarwyddwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, 145 Albany Road, Caerdydd CF2 3NT
Rhif ffôn: 0222 485510
Dyddiad cau: 10 Ionawr 1992. Cyfweliadau: 20 Ionawr

# GOBL GOBL GOBL GOBL

**Nos Sadwrn 30 Tachwedd yn Neuadd Fawr Undeb y Brifysgol yng Nghaerdydd cyflwynwyd Gwobrwyon cyntaf BAFTA Cymru i'r diwydiant ffilm a theledu.**

Ymhlith y 26 categori, enillodd y ddrama *Nel* gan Opus 30 dair gwobr, sef y Ddrama Orau, Awdur Cymraeg Gorau ac Actores Orau. Patrick Bergin gafodd y wobr Actor Gorau am ei ran yn *Morphine and Dolly Mixtures*, cynhyrchiad Karl Francis i BBC Cymru a enillodd wobrau mewn pedwar categori arall hefyd.

Cafodd y ffilm *OM* ddwy wobr am y Sinematograffeg Ffilm Gorau (Ashley Rowe) a'r Golygydd Ffilm Gorau (Tim Kruydenberg). Aeth gwobr y Sinematograffeg Fideo Gorau i Peter Thornton am raglen HTV Cymru *Merched Lazarus*.

Guto Harri o adran newyddion BBC Cymru oedd y Cyfrannwr Gorau i Newyddion a Materion Cyfoes yng Nghymru, a gyda'i gynhyrchiad *O Fan i Fan* dyfarnwyd gwobr Criw-ar-y-funud Gorau i Don Llewellyn.

Aeth rhaglen *Fideo 9* Criw Byw â'r wobr ar gyfer y Cyfraniad Gorau i Raglenni Ieuenctid a Phlant, a Gwyn Alf Williams â'r wobr am y Raglen Ddogfen/Ffeithiol Orau am *Hughesofka a'r Rwsia Newydd* gan Teliesyn.

Y Cyfraniad Gorau i Adloniant Ysgafn oedd Caryl Parry Jones a Dyfan Roberts yn *Bocs Dolig Caryl a Dyfan* gan HTV Cymru.

Dyfarnwyd Gwobr Arbennig BAFTA Cymru i Rachel Thomas am ei chyfraniad anfesuradwy i ddrama, ffilm a theledu yng Nghymru.

***• Lluniau gan Richard Bosworth***



Patrick Bergin (Actor Gorau); Siân Phillips (Cyflwynydd y Seremoni); Beryl Williams (Actores Orau); a Stifyn Parri (Cyflwynydd y Seremoni)



Guto Harri, y Cyfrannwr Gorau i Newyddion gyda Catherine Zeta Jones



Richard Lewis yn derbyn y Wobr i Nel, y Ddrama Gymraeg Orau, oddi wrth Meredydd Edwards

TLWS · BAFTA · CYMRU · 1991



Gwobrwyo Michael Povey, Awdur Cymraeg Gorau, am ei ddrama Nel



Rachel Thomas, a Gwobr Arbennig BAFTA Cymru, gyda Richard J Staniforth, Cadeirydd BAFTA Cymru



Don Llewellyn yn casglu'r Wobr am y Criw-ar-y-funud Gorau

# HEL MEDDYLIAU'R NADOLIG

HUW ETHALL

MAE'N ANODD meddwl am Iesu fel plentyn Capricorn (Rhagfyr 22 - Ionawr 20). Mae'n chwerthinllyd yn wir. Pe bai wedi ei eni dan Aries, Pisces neu Leo fe fuasai'n berson cwbl wahanol yn ôl y sêr-ddewiniaid. "Pa ddwli yw hwn?" fel y buasai Waldo'n dweud.

Cawsom ein cyflyru yn y Dinesydd, y Western Mail a phapurau eraill i gredu fod y sêr â rhan dyngedfennol yn ein bywyd beunyddiol, misol a blynyddol. Oesol yn wir. Dim ond y *Tyst*, y *Goleuad*, *Seren Cymru* a'r *Llan* sy ddim yn credu yn y fath nonsens! Ac o sôn am Iesu, a allech chi ei weld Ef o bawb yn darllen colofn y sêr yn *Newyddion Nasareth*?

'Capricorn' meddai'r sêr-ddewiniaid modern. Dywed y Lladinwyr wrthym mai o'r gair Lladin caper-pri, y gair am afr, y daw'r enw a dyna symbol y gyfundrefn sodiac (sidydd yw'r gair Cymraeg cywir meddai'r geiriadur). Mae'n ddoniol cysylltu'r afr o bob anifail â thymor geni Iesu o bawb. Oen, ie – ond nid gafr!

Yn ôl y Testament Newydd bu tynged erchyll i ryw eifr yn un o ddamhegion Iesu. Mentrodd unwaith broffwydo diwedd y byd. Darllener Mathew 25: *pan ddaw Mab y Dyn yn ei ogoniant a'r holl angylion gydag ef, yna bydd yn eistedd ar orsedd ei ogoniant.* Fe gesglir yr holl genhedloedd ger ei fron, a bydd ef yn eu didoli fel y mae bugail yn didoli'r defaid oddi wrth y geifr. Gyda llaw, gwaith anodd oedd hynny yn y Dwyrain Canol gan mor debyg oedd defaid a geifr i'w gilydd, ac roedd angen bugail da i wneud y gwaith yn effeithiol. Ond sylwer ar dynged y geifr druain. Ar ôl rhoi'r defaid ar y dde, rhoir y geifr ar y chwith a dywed Mab y Dyn *"yna fe ddywed wrth y rhai ar y chwith, ewch oddi wrthyf chwi sydd dan felltith i'r tân tragwyddol"*. A bod yn onest, fe'i caf yn anodd darllen y geiriau yma'n gyhoeddus o gofio cymeriad y sawl a'u llefarodd.

Ar ddiwedd stori'r Doethion yn Mathew, dywedir iddynt gael rhybudd mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod ar ôl gweld y baban. Meddai'r hanes: *"...ac aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall"*. Ni chlywyd na siw na miw amdanynt ar ôl hynny. Beth ddigwyddodd iddynt tybed? A gredodd y tri mewn sêr-ddewiniaeth ar ôl hynny? A aeth y tri "ar hyd ffordd arall" mewn cred a dysgeidiaeth? A gollodd y sêr eu rhin?

Peidiwch â dweud wrth neb, ond mae gen i syniad cryf i'r tri fynd i'r Weinidogaeth a threulio gweddill eu dyddiau yn sôn, nid am y sêr, ond am yr Un a welsant mewn preseb ym Methlehem. Roedd rhywbeth cwbl wahanol yn Hwn.

# y Sêr



## EIRY PALFREY YN SYLLU I'N SANAU DOLIG

MAE'R NADOLIG YN NESAU, A'R BROBLEM FAWR SY'N CODI EI PHEN BOB BLWYDDYN YDY PA ANRHEGION FYDD YN PLESIO PAWB. FELLY BETH AM ADAEL I'R SÊR HWYLUSO'R BAICH A'CH HELPU I WNEUD EICH SIOPA DOLIG.

### ARIES

Arweinwyr naturiol, sydd eisiau mynd, mynd o hyd. Fe fydden nhw'n gwerthfawrogi unrhyw beth sy'n newydd a chyffrous. Cyfrifiadur neu gar newydd. Byddai anrheg â'u henw arno'n plesio, neu enw'r tŷ ar lechen? Maen nhw'n dwli ar wydr, a diamwntau. Prynnwch ddrych er mwyn iddyn nhw gael edmygu eu hunain. Eu hoff liw yw coch.

### TAURUS

Pobol sy'n hoffi moethusrwydd a'r gorau o bob peth. Prynwch dirlun mewn olew (gwreiddiol, wrth gwrs), planhigyn neu flodau – byddai unrhyw beth i'r ardd yn plesio. Gemau, tlysau, mwclis. Bwydydd moethus fel pâté de foie gras, pwdin plwm o Harrods, neu botel o Bort (vintage, wrth gwrs!). Allan nhw ddim gwrthsefyll siocled – drud. Eu hoff liw yw glas, pinc.

### GEMINI

Pobol brysur, amryddawn sy'n haeddu anrheg i hwyluso'u bywyd hectig – prynwch Ffiloffaith, cyfrifiadur, neu gloc larwm iddyn nhw. Dyma gyfathrebwyr y sidydd ac mi fyddent wrth eu boddau'n derbyn teipiadur, prosesydd geiriau, peiriant recordio karaoke. Beth am sebon siâp meicroffon? Eu hoff liw yw melyn.

### CANSER

Mae'r rhain wrth eu boddau'n gofalu am bethau, ci, cath, tedi bêr neu blanhigyn. Rhowch anrheg i harddu'r cartref, yn enwedig os yw e'n arian neu'n hen (neu'r ddau!). Maen nhw'n hoffi casglu pethau – dechreuwch nhw ar gasgliad o stampiau, siwgiau, neu hen lwyau. Prynwch ddillad i'w hanwesu, siol neu sgarff. Hoff liw: arian neu lwyd golau.

### LEO

Pobol hael sy'n hoffi creu argraff, ond os am gadw eu cyfeillgarwch gofalwch nad yw eich anrheg chi yn well na'r un gawsoch chi oddi wrthyn nhw! Prynwch rywbeth i harddu eu gwallt – crib, rhuban neu byrm. Rhowch docynnau theatr, cinio moethus, drych, gemau mawr, recordiau CD, neu ddillad fflashy. Eu hoff liw yw aur, melyn ac oren.

### VIRGO

Pobol drefnus gyda lle i bopeth. Byddant wrth eu boddau gyda dyddiadur electroneg, cabinet ffeilio, y Geiriadur Mawr, y Bywgraffiadur neu'r Cydymaith i Lenyddiaeth Gymraeg. Pobol lân sy'n croesawu anrhegion o sebon, powdwr talc, neu bersawr. Maen nhw'n hoffi bwydydd cyflawn a meddigyniaethau naturiol. Eu hoff liwiau yw nefi a llwyd.

### LIBRA

Rhai hawdd i'w plesio ond i chi roi rhywbeth moethus i'w helpu i ymlacio – potel o siampaen neu fybIbath. Pobol ramantus sy'n hoffi'r gorau – cinio i ddau, objets d'art chwaethus, perlau. Anfonwch flodau neu prynwch recordiau CD clasurol – fel Pavarotti neu Margaret Williams. Y lliwiau i'w dewis yw pinc neu las golau.

### SCORPIO

Pobol angerddol, ddwfn, rywiol sydd wrth eu bodd yn ymchwilio a hel clecs. Prynwch y Bywgraffiadur neu enseiclopedia. Rhowch ddillad isa sidan du iddyn nhw, neu ddilledyn lledr. Byddai potel o unrhyw wirod yn plesio (neu gês o win coch), llyfrau ias a chyffro, planhigion anghyfarwydd – madarch falle? Hoff liwiau yw coch tywyll a du.

### SAGGITTARIUS

Mae'r rhain yn hoffi antur, teithio a gadjets. Prynwch docyn i Beriw, taith lawr yr Amazon, ffwrn meicrodon, prosesydd bwyd (neu eiriau), camera otomatig, agorydd tun trydan. Maen nhw'n hoffi ceffylau, cŵn mawr, ceir cyflym a chwaraeon, felly prynwch rywbeth sy'n ymwneud â'r rheiny. Tocynnau theatr, whisgi, gwersi hedfan. Eu hoff liw yw porffor.

### CAPRICORN

Pobol synhwyrol sobor ac uchelgeisiol fyddai'n gwerthfawrogi anrheg ymarferol solet, dibynnol fel Rolls Royce, Miele, Rolex neu Cartier. Neu rhowch rywbeth syml, didwyll iddyn nhw wedi ei lapio mewn papur Harrods. Mae llyfrau swmpus bob amser yn dderbyniol – neu falŵn i godi'u hysbryd. Lliwiau sobor – dim byd llachar – brown, du neu las tywyll.

### AQUARIUS

Mae'r rhain yn mwynhau syrpreis a byddai unrhyw beth newydd a gwirion yn apelio – fel cloc larwm sy'n esgus bod yn bêl griced, neu watsh sy'n cynnau sigarets. rhowch ddillad llachar streipiog o bob lliw, neu dei bô chwirligwgan lurex. Prynwch gêmau bwrdd gwirion, amhosib i'w deall. Eu hoff liw yw gwyrddlas llachar, streipiau a sieciau.

### PISCES


Pobol artistig, emosiynol – prynwch hancesi tlws, pysgod aur, neu botel o rywbeth cryf (persawr neu frandi). Maen nhw wrth eu boddau gyda sgidie, sane silc du, neu lopannau gwlan cynnes. rhowch ddillad rhamantus iddyn nhw mewn chiffon neu felfed. Prynwch ganhwyllau, arogldarth, neu docynnau i'r sinema. Eu hoff liwiau yw gwyrdd y môr a fioled.





CRYS Alff a Bet

Crys Alff a Bet (yr wyddor ar y cefn).
Crys chwys trwchus, Crys T – llawes hir neu llawes fer. Amrywiaeth o liwiau a meintiau i blant ac oedolion




Ffoniwch i archebu oddi wrth
Cathryn M Timothy
128 Ffordd Rhuddlan, Y Rhyl, Clwyd LL18 2RF
Ffôn 0745 353192 / 590224

# CANHWYLLAU'R PLYGAIN YM MORGANNWG

ROY SAER

## YN BWRW GOLWG AR ADDURNIADAU YMFFLAMYCHOL NADOLIGAU'R GYMRU FU


YNG NGOGLEDD Cymru gynt mynegwyd sawl cwyn fod canu carolau mewn plygeiniau wedi ennyn ymorchestu a chystadlu ymysg cantorion.

Ym mhlygeiniau'r de, ar y llaw arall, ni ddatblygodd y canu carolau yn draddodiadol mor rymus o bell ffordd – ond mynnodd y chwiw gystadleuol ei mynegi ei hun serch hynny, ond drwy gyfrwng *gweladwy* y tro hwn, yn hytrach na chlywadwy.

Ni chyfleir hyn yn fwy trawiadol yn unlle nag yn llythyr cynhwysfawr a anfonodd Cochfarf (Edward Thomas, maer Caerdydd ym 1902-23) at olygydd *Y Geninen* ym 1906, gan gyfeirio at gapeli Bro Morgannwg yn ystod chwedegau'r ganrif o'r blaen:

❝ Mr Gol, – Yr oedd yr arferiad o losgi canwyllau yn y capelau, ar wyliau y Nadolig, yn tra chyffredinol yn Neheudir Cymru tua'r adeg y cyfeiria "RJJ" ati [1864] yn Y Geninen ddiweddaf. Nid oes nemawr i deulu a berthynai i'r capelau heb baratoi canwyllau o'r fath; ac ar ol eu gwisgo â chareiau (strips) o bapyrau amryliw, dygid hwy i'r "pligin" (plygain), sef cyfarfod gweddi a gynelid mor foreu â phump o'r gloch ar foreu Dydd Nadolig. Yr wyf wedi gweled bwrdd y cymmundeb, astellau y pwlpud, ac arffedau y ffenestri, wedi eu llanw gan ganwyllau o'r fath, a'r cwbl o honynt yn oleuedig yn ystod y gwasanaeth pan na fuasai goleuni dydd i'w gael. Yn aml iawn yr oedd llawer o eiddigedd yn cael ei enyn rhwng y boneddigesau parthed gwychedd y canwyllau; ac achosid cymaint o drafferth i swyddogion yr eglwysi parthed lleoliad y canwyllau ag a welir rai gweithiau wrth ddewis diaconiaid neu osod seddau: yn wir, yr oedd cythraul y canwyllau yn fwy ffyrnig na chythraul y canu. Llawer gwaith y difyrais fy hun, pan yn hogyn, wrth wylied y canwyllau yn llosgi hyd at y papur, pan y buasai rhai o hen dduwolion yr amser hwnw yn dra hir ar weddi, neu pan fuasai y pregethwr yn neillduol o sychlyd. Ambell dro cymerai y papur dân; ac y mae genyf gof da am fonclust a gefais gan fy nhad am chwerthin yn y capel am anap o'r fath. Digwyddodd hyny yn nghapel Bethel, Heol-y-cyw, yn agos i'r Wig, tua dwy flynedd cyn y sonia "RJJ" am dano.

Mae yr arferiad yn agos wedi diflanu erbyn hyn, er i mi glywed fod peth tebyg yn parhau mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin hyd y dydd hwn ❞.



Y tebygrwydd yw fod yr un math o ymgiprys yn elfen, eto, yn y 'plygain' a fynychodd Glanffrwd yn Ynysybwl tuag 1850:

❝ Yr oedd yr hen gapel wedi ei addurno â chanhwyllau o bob math a lliw, a'r rhai hynny wedi eu gwisgo gan y merched mewn modd prydferth iawn. Yr oedd rhes o ganhwyllau wedi eu gosod o gwmpas y sêt fawr, a rhes o gwmpas y seti eraill, oll yn addurnol iawn; a Daniel Rhydygwreiddyn, Shadrach o'r Lechwen, a William Llwynperdid wedi gwneud math o chandelier o glai ffynnon y Fanhalog, a'i hongian a chadwyn hir wrth dop y capel neu y nenfwd yng nghanol y lle. Yr oedd yn brydferth ac yn hynod iawn. Yr oedd yn ddarn o gywreinrwydd, a mawr y syllu arno a'r sôn a fu amdano. Yr oedd yr hen gapel yn orwych iawn, ac mor olau ag y gallasai canhwyllau ei wneud...Ond cododd Richard Williams ar ei draed i dorri pen un o'r canhwyllau a oedd yn llosgi dipyn yn dywyll. Pawb yn edrych ar y gannwyll, ac yn ofni i rywbeth ddigwydd i'r frills ardderchog o'i chwmpas, a rhywfodd mae Richard yn lled drwsgl gyda'r gwaith o'i thacluso, ac ar unwaith, mae y papur a'r addurnwaith yn ffaglu, ac yn ffurfio math o goelcerth yn ymyl yr hen gwpwrdd, ac mewn ychydig eiliadau mae cannwyll arddunedig Mari Tynewydd wedi llosgi allan, a lludw'r papur yn hofran uwchben drwy y capel, a Mari Tynewydd ac Ann merch Richard yn gwneud golwg chwerw, ac yn edrych yn ddicllon ar yr hen ŵr am ddifetha'r gannwyll cyn pryd ❞.

Ceir syniad o ysblander rhai o'r cynhyrchion wrth fwrw golwg ar wrthrych sydd bellach yn rhan o gasgliad amgueddfa Sain Ffagan. Ymddengys mai atgynhyrchiad ydyw o'r math o ganhwyllbren addurniedig a welid mewn gwasan-aethau plygain yng nghapeli Llangynwyd tua chanol y ganrif ddiwethaf – er mai ym 1909, ac ar gyfer ei gyflwyno i'r Amgueddfa Genedlaethol, y gwisgwyd y canhwyllbren (â phapur tisw lliwgar).

Wrth reswm, oes fer oedd i'r addurniadau gwreiddiol, a hwythau o ddefnyddiau mor frau, ond trueni o'r mwyaf na chadwyd inni lawnach tystiolaeth am yr agwedd hon o gelf werin y Cymry, yn enwedig o gofio mai trwy gyfryngau artistig gwahanol y cafodd cymaint o ynni esthetig ein cenedl ei fynegiant dros y canrifoedd diweddar.

PRENTIS Y CYLCHGRAWN CENEDLAETHOL I DDYSGWYR
DECHREUWYR A PHROFIADOL

THE NATIONAL MAGAZINE FOR WELSH LEARNERS
BEGINNERS AND ADVANCED

Ar gael mewn siopau llyfrau Cymraeg neu drwy'r post. Danfoner £5 ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad:
Available in Welsh bookshops or by post. Send £5 together with your name and address to:

GWASG TAF
99 HEOL WOODVILLE, CAERDYDD. CF2 4DY
(0222) 221778

# I FFWRDD Â NI






## Llenwi bol Siôn Corn... â Chyflaith

**Minwell Tibbot**

Mae'r Nadolig ar y trothwy unwaith eto a rhaid mynd ati i baratoi rhai danteithion ar gyfer y teulu. Beth am wneud cyflaith eleni a chael pob aelod o'r teulu i gymryd rhan yn yr hwyl?

Roedd cynnal Noson Gyflaith gynt yn arfer traddodiadol mewn rhannau o'r Gogledd i ddathlu'r Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd. Yn eu tro byddai teuluoedd yn gwahodd eu ffrindiau i'w cartrefi fin nos. Byddent yn paratoi swper mawr ar eu cyfer, yn cynnwys gwydd a phwdin Nadolig fel rheol, ac yna byddai'r cwmni'n ymuno mewn chwaraeon, adrodd straeon ac yn tynnu cyflaith.

Ar ôl berwi'r deunyddiau angenrheidiol i ryw ansawdd arbennig, tywelltid y cyflaith allan ar lechen neu garreg fawr wedi ei hiro â menyn. Weithiau byddai carreg yr aelwyd yn cael ei glanhau a'i hiro ar gyfer yr achlysur hwn. Yna byddai pob aelod o'r cwmni'n iro'i ddwylo ac yn cymryd darn o'r cyflaith i'w dynnu tra byddai'n gynnes. Byddai'r dibrofiad yn edmygu medrusrwydd y profiadol, ond roedd aflwyddiant y dibrofiad yn destun hwyl i bawb!


Roedd cyflaith yn cael ei wneud mewn rhannau o'r De hefyd, yn enwedig yn y Cymoedd. Hyd y gwyddom, ni chysylltid ef ag unrhyw ŵyl arbennig yno, ond roedd yn arfer gan wragedd i'w werthu o'u cartrefi neu ar y farchnad leol.

Dyma rysait traddodiadol a gefais gan wraig o Waelod y Garth:

**pwys o siwgwr coch, meddal**
**llond cwpan mawr o ddŵr oer**
**llond dwy lwy de o finegr**
**talp o fenyn**
**olew mintys poethion**

- Rhoi'r deunyddiau (ac eithrio'r olew) mewn sosban, eu troi'n gyson, a'u berwi'n ofalus am ryw bymtheng munud.
- Codi ychydig o'r gymysgedd i lond cwpan o ddŵr oer, ac os bydd yn caledu ar unwaith gan ddisgyn i waelod y cwpan bydd y cyfan wedi berwi i'r ansawdd priodol.
- Yna arllwys y rhan fwyaf ohono allan ar ddysgl agored wedi ei hiro'n dda â menyn, gan gadw rhyw gymaint yn weddill yn y sosban (dylid cadw hwn rhag caledu).
- Iro'r dwylo â menyn a thynnu'r hyn sydd yn y ddysgl cyn gynted ag y gellir cydio ynddo.
- Ychwanegu ychydig o olew mintys ato wrth ei dynnu a pharhau i'w dynnu nes daw'r cyflaith i'r un lliw â hufen.
- Ei osod yn stribedi hir, gwastad (tua modfedd o led) ar y bwrdd, ac arllwys y gweddill lliw tywyll, sydd yn y sosban yn llinell denau ar ganol pob stribed.
- Torri'r stribedi'n ddarnau bychain cyn iddyn nhw galedu.

## O'R HOSAN




### HARRI PRITCHARD JONES YN TWRIO'N GYNNAR AR BEN Y WARDROB

PONT Y BORTH sydd dan sylw eto gan Robin Richards. Mi ddyla fo wybod am be mae'n siarad gan iddo gael ei fagu yn Caffe Penbont, ar ochr Môn i'r hen bont. Y gyfrinach y cyfeirir ato fo oedd hanes adfer cadwynau'r hen bont grog ar ddechrau'r rhyfel, a hynny heb i neb wybod yn iawn beth oedd yn digwydd. A dyna pryd y cyrhaeddais i y Borth, ar doriad y rhyfel ym Medi 1939.

Fy nghof i amdani ydy ei bod hi'n gadwynau i gyd, yn anferth a thrwm yr olwg, ac eto'n edrych fel tasan nhw'n hongian yn llac rhwng pileri carreg enfawr. Roedd pobl yn arfer cerdded ar ei thraws i lawr ei chanol, ond daeth y newid yn weddol fuan, ac mi gofia i f'arswyd wrth orfod cerdded ar hyd y llwybrau ar bob ochr, gan wybod mod i'n ond yn lled sownd wrth yr hen bont, a dim rhagfur iawn rhyngddo i a chwymp i ebargofiant; dim ond rhyw hen rodenni! Roedd hi'n daith hunllefus, a ail-adroddwyd yn fy ngwely sawl tro wedyn!

Wrth gwrs, mi syrthiodd ambell greadur dewr i'w farwolaeth oddi arni, weithiau'n anfoddog, weithiau fel arall. Ac mi fu bron i bethau mawr ddigwydd pan dorrodd y peth oedd yn atal y darn canol rhag siglo o ochr i ochr, a hynny pan oedd bws lawn wrthi'n croesi'r uchelgaer.

Pont y Borth ydy'r bont go iawn wrth gwrs, gan mai hi ydy'r unig un y medr fforddolyn ei chroesi ar droed. Mae hi gymaint harddach nag un Britannia. Ac yn gampwaith peirianyddol, gan Telford. Un o fy hoff lefydd gynt i fynd iddo i guddio yn y Borth oedd y twnel ger Carreg Halen i grombil y ddaear lle yr angorwyd un pen i'r cadwynau hynny.

Mae hwn yn llyfr am y Borth yn ogystal â'r bont, ac am fyd a bywyd pobl y Borth yng nghyfnod yr awdur. Ceir sôn a lluniau o'r pier, y St Tudno a ddoi â lluoedd o Landudno ac o Lerpwl i grwydro'r dref gydol haf, y Carnifal, yr hen Bictwrs a anfarwolyd gan Driawd y Coleg, yr hen ysgol elfennol, bysiau TJ Jones, y Ffair enwog, tîm pêl-droed y Teigars, ac ambell i dafarn – ond dim capel nac eglwys!

Mae'n gas gan bobl y Borth feddwl am y lle fel maesdref i Fangor, ond mae cysylltiad agos wedi tyfu ers codi'r bont. Ac yn ystod y rhyfel byd diwethaf roedd adran Adloniant Ysgafn y BBC yn ganolog wedi dwad i Fangor am loches, a gwelid cast Itma a rhaglenni eraill yn crwydro draw i'r Borth ambell waith.

Mae'n llyfr diddorol, yn arbennig i blant y Borth. Mi ddysgodd Robin Gymraeg ar ôl cyrraedd y Borth o Lerpwl, ond hanes Menai Bridge yn hytrach na'r Borth a geir fwyaf yma, yn ogystal â hanes y bont ei hun. Does dim sôn am y capeli, na'r Gymdeithas Ddrama lewyrchus, na'r deffroad mewn Adloniant Ysgafn Cymraeg ddaeth yn sgîl Itma ac ati, drwy Sam Jones, Charles, Merêd a'r gweddill. Ond mae'n ddarllenadwy a digon o luniau ynddo, a dylai werthu'n dda.

**The Secret Bridge, Robin Richards, Rocket Books**
**(19 Cae'r Wenallt, Pantmawr)**
**£4,95 (50c cludiant)**

# MAE'R NADOLIG YN NESAU!

## Y BÊL HIRGRON YN EDRYCH YMLAEN AT LWYDDIANT

### HUW LLYWELYN DAVIES YN MEITHRIN EGIN Y CRICCS

O'R FESEN FACH y tyf y dderwen fawr, ac mae hynny'n sicr yn dod yn wir yn hanes Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd. Rhyw hanner dwsin o fechgyn ddaeth i feysydd Llandaf bedwar tymor yn ôl i wthio'r cwch i'r dŵr fel petai, a thri thad brwdfrydig gyda nhw, yn falch o'r cyfle i golli pwys neu ddau bob bore Sadwrn.

Bu'r cynnydd yn aruthrol, a bellach mae 'na rhwng trigain a deg a thrigain o fechgyn ifanc rhwng saith a phymtheg oed yn dod yn rheolaidd i ymarfer, a'r sesiynau eleni, drwy garedigrwydd y prifathro a'r staff, wedi symud i gaeau Ysgol Isaf Glantaf yn y Tyllgoed.

Yr amcan, yn naturiol, yw hybu brwdfrydedd a gallu o safbwynt rygbi yn y bechgyn, ond y peth pwysig o safbwynt CRICC yw fod hynny'n cael ei wneud yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Braf eu gweld yn cael y cyfle i ddefnyddio'r iaith yn naturiol y tu fâs i furiau swyddogol yr ysgol, a da o beth yw gweld Cymry ifanc o wahanol ardaloedd, o Gwm Rhymni a Chaerffili, o'r Barri, Penarth a Dinas Powys, yn ogystal â'r cnewyllyn cryf o Gaerdydd, yn cyd-gymysgu ac yn magu ffrindiau o ardaloedd newydd.

Er mwyn sicrhau parhad yr egwyddor hwn, gosodwyd canllawiau o safbwynt aelodaeth, â'r cryts i gyd yn gorfod bod naill ai'n ddisgyblion mewn ysgolion Cymraeg, yn dod o deuluoedd Cymraeg, neu'n feibion i chwaraewyr a chynchwaraewyr Clwb Rygbi Cymry Caerdydd.

Ac mae'r cysylltiad gyda'r clwb hwnnw wedi dod yn un cryf iawn dros y tymor diwetha, a bechgyn CRICC yn ddiolchgar iawn i'r criw hŷn am eu mabwysiadu nhw i bob pwrpas, a chyflwyno set o grysau iddyn nhw y llynedd. Y gobaith yw y bydd pawb yn elwa yn y diwedd, a ffynhonnell barod o chwaraewyr i ffurfio tîm ieuenctid o bosib cyn hir, ac i ddod trwodd i dîm llawn y clwb dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Sicrhawyd llwyddiant felly oddi ar y cae. Erbyn hyn mae 'na bwyllgor sywddogol i drefnu'r gweithgarwch, a thîm gweithgar yn rhoi eu hamser ar fore Sadwrn i hyfforddi'r bechgyn – deg ohonyn nhw i gyd i roi'r sylw teilwng i wahanol anghenion pob un o'r oedrannau.

Cafwyd dau uchafbwynt mawr y llynedd. Yn gyntaf pan ddaeth Wayne Shelford, cyngapten Seland Newydd, i weld y bechgyn un bore Sadwrn. Sgwrsio â nhw a'u cynghori, a chyflwyno bagiau taclo i'r clwb. Ac yn ail, gweld Scott Gibbs, chwaraewr y flwyddyn yn dod i'r parti ddiwedd y tymor i gyflwyno'r gwobrwyon, a llawer o'r bechgyn yn gallu uniaethu ag e'n hawdd, ag ynte hefyd yn dod o gartre di-Gymraeg ac wedi dysgu'r iaith wrth fynychu Ysgol Llanhari.

Ac mae llwyddiant yn dod ar y cae erbyn hyn hefyd. Ddechre'r tymor bu bechgyn dan 9, 11 a 14 yn cystadlu yn rhan o Ŵyl Rygbi fawr Cwpan y Byd. A'r bechgyn dan 14 yn disgleirio drwy ennill eu grŵp, a dod trwodd i blith y pedwar ola mewn pencampwriaeth uchel iawn ei safon.

Bu tri thîm yn chwarae o dan y goleuadau ym Mhentyrch, dau o'r rheiny'n ennill, a'r trydydd, y bechgyn o dan 13 yn colli mewn gêm agos, hynod o gyffrous.

Ar 9 Tachwedd bu'n bleser cael croesawu llond bws o fechgyn o Lan-y-Fferi i chwarae tair gêm ar gaeau Ysgol Glantaf. Boddhad mawr oedd gweld y bechgyn lleia i gyd, y rhai sydd newydd ddechre, yn cystadlu cystal cyn colli o 8 pwynt i 4; yna daeth buddugoliaeth glir o 20 pwynt a mwy i'r tîm dan 13 oed, a'r uchafbwynt oedd brwydr hynod o gorfforol a chyffrous dan 14 oed, cyn i fechgyn CRICC ennill o 18 pwynt i 14, a mesur y fuddugoliaeth a'r datblygiad i'w weld yn y ffaith bod Glan-y-Fferi wedi ennill y gêm gyfatebol y llynedd o 50 o bwyntie i 8.

Arwydd arall o gryfder, a ffynhonnell o falchder mawr i'r clwb, oedd gweld dim llai na chwech o aelodau'r tîm hwnnw o dan 14 yn cynrychioli ysgolion Caerdydd yn gêm agoriadol y tymor i'r Brifddinas, a hwythe'n ennill o 36 o bwyntie i 10 lawr ym Mhenybont. Y bechgyn hynny felly, Cai Britton, Rhys Evans, Aled Charles, Rhodri Llywelyn, Gethin Davies, a Dafydd Harris sy'n gosod y nod i aelodau iau y clwb i anelu ato. Roedd yr un balchder wrth weld dau arall, Gareth Shelding a Lewis Hibbs, yn cynrychioli Ysgolion Cwm Rhymni yn ystod y tymor.

Odyn, mae CRICC ar gerdded, ond ryn ni wastad yn barod i groesawu aelodau newydd i gydgerdded gyda ni. Felly os oes mab yn y tŷ sy'n ysu am wisgo'r togs rygbi ac ymuno yn yr hwyl, Glantaf isa am 11.00 o'r gloch fore Sadwrn amdani. Bedwar tymor yn ôl y dechreuodd y fesen fach fwrw gwreiddiau. Bellach mae'r goeden yn tyfu, mae'r bonyn yn braff, y gobaith yw y bydd y canghennau'n ymestyn ac yn dod yn gysgod i'r gêm a'r Gymraeg yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

## Byd y Bol

### DAFYDD SAER A'I BEN YN Y FFWRN

Prin bod angen i mi'ch hatgoffa fod y Nadolig unwaith eto gerllaw, ac arogl y pwdinau bendigedig yn llenwi'r awyr. Bûm yn trafod moesoldeb y cread â nifer o ddiwinyddion amlwg, a daethpwyd â sawl pwynt diddorol i'm sylw parthed rhan anifeiliaid ym mhrif ŵyl hyfryd ein diwylliant (na, nid yr Eisteddfod, ond y Nadolig).

Ar y naill law, yr ydym yn mwytho ein hanifeiliaid anwes, yn gŵn ac yn gathod, ond ar y llaw arall yr ydym yr un mor barod i drywanu a rheibio cyrff meirwon anifeiliaid eraill, a'u bwyta.

Ar un olwg mae yna ddicotomi rhyfedd yma, ond wrth gwrs, crewyd anifeiliaid i wasanaethu dyn, ac felly mae'n berffaith iawn i ni adael iddynt fyw'n hapus neu farw'n boenus yn ôl ein mympwy.

Beth bynnag, mae'n draddodiadol i ni feddwl am y tlawd a'r gwan tra'n gwario'n wirion arnom ni'n hunain adeg y Nadolig, a pha well ffordd o weithredu'n bositif na thrwy feddwl am y llygod unig a fyddant wedi'u caethiwo mewn trapiau llygodgarol dros yr Ŵyl?



Mae'n bosib gwneud y Nadolig y llygod trueinion hyn yn un bythgofiadwy gydag ychydig o ddychymyg a gwaith paratoi ymlaen llaw, cyn gosod y trap. Y cyfan sydd angen yw ychydig o amynedd, a'r parodrwydd i roi cyfran o'ch harlwy Nadoligaidd o'r neilltu. Mae pris y weithred hon yn fach iawn, ond mae'r pleser a rydd i'r llygod yn annirnadwy.

#### Gwledd i'r Caws-fwytadur caeth

Tra'ch bod yn paratoi'r mins peis a'r pwdinau, paratowch bump ychwanegol, ond heb eu bod yn mesur mwy na $\frac{1}{8}$ modfedd ar draws. Paratowch bwdin Nadolig yn yr un modd, a rhowch y cwbl mewn trap llygodgarol. Wedyn, adeiladwch goeden Nadolig ddigon bach i ffitio'n glyd yn y trap (gellir defnyddio sgiliau gwneud llong-mewn-potel ar gyfer y gamp hon).

Ar ddydd yr Ŵyl, adeg y cinio Nadolig, dewch â'r trap at y bwrdd bwyd, yn cynnwys ei garcharor, ac yn ofalus, rhowch ychydig o'r twrci drwy ddrws y trap. O fewn ychydig eiliadau dylech glywed y llygoden yn gwichian yn hapus. Pan ddaw'r amser i fwyta'r pwdin, rhowch dri diferyn o frandi (gyda chymorth pipette) ar y pwdin sydd yn y trap, cyn ei danio â matsien. Byddwch yn ofalus i beidio â gollwng brandi ar ffwr y llygoden tra'n tanio matsen, neu gallech losgi'r ffwr.

Gellwch ryddhau'r llygoden maes o law, cyn manteisio ar y cyfle i wagio'r ysgarthion allan o'r trap, dros eich tomen gompost organig.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm darllenwyr oll.

92

**Blwyddyn Newydd Dda**
**Patrwm Newydd Gwell**

# RADIO CYMRU

**LLUN-GWENER**

6.00-8.00 Dei Tomos
*(Newyddion am 7.00 a 8.00)*

8.20-10.30
Hywel Gwynfryn

10.30-11.00
Nia Chiswell

11.00-12.00
Sulwyn Thomas

**PENWYTHNOS**

Sadwrn 7.20 - 6.00
Sul - Darlledu Di - dor o
7.40 y bore - 11.30 y nos

BBC RADIO CYMRU 92-96 FM

**Glywsoch chi?**